# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 345

Ionawr 2012

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Canlyniadau positif i gynllun arloesol dŵr mwynglawdd Cwmrheidol



Mae canlyniadau cynllun peilot arloesol i daclo llygredd dŵr mwynglawdd yng Nghwmrheidol yn dangos canlyniadau rhagorol, gyda chymaint â 99% o'r metel yn cael ei waredu flwyddyn ar ôl ei lansio. Dechreuodd y gwaith i wella ansawdd y dŵr yn yr ardal ym mis Medi 2010 fel rhan o gynllun peilot unigryw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Cafodd mwynglawdd Cwmrheidol ei adael ers bron i ganrif ac mae'n cysylltu â nifer o byllau eraill, pob un yn draenio i'r afon Rheidol. Yn hanesyddol, roedd llawer iawn o sinc a metelau eraill yn mynd i'r afon, a oedd, o ganlyniad, yn methu â chyfarfod safonau ansawdd dŵr 'da' Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd.

Fel rhan o'r broses, mae'r metelau gwenwynig yn cael eu tynnu o ddŵr y mwynglawdd cyn iddo lifo i Afon Rheidol. Mae hwn yn ddull amgylcheddol gyfeillgar a disgyrchiant yw'r unig ffynhonnell ynni y mae ei angen. Dengys canlyniadau dros y flwyddyn ddiwethaf y cafodd hyd at 99% o sinc, plwm a chadmiwm ei dynnu o'r dŵr. Mae'r system yn defnyddio cymysgedd o gynnyrch gwastraff, gan gynnwys cregyn cocos a chompost, i annog prosesau biolegol a chemegol naturiol lanhau'r dŵr o'r mwynglawdd.

Cafodd dulliau tebyg eu defnyddio'n llwyddiannus i dynnu haearn o ddyfrodd pyllau glo, ond dyma'r tro cyntaf i'r dull hwn gael ei ddefnyddio i dynnu sinc a metelau eraill o un o hen fwyngloddiau niferus gorllewin Cymru.

Meddai Paul Edwards, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru:

"Mae'r canlyniadau o'r cynllun peilot arloesol hwn yng Nghwmrheidol yn dangos fod y broses o drin llygredd dŵr mwyngloddiau yn un hyfyw ac y gallai fod yn fanteisiol ar safleoedd mewn mannau eraill yng Nghymru yn y dyfodol.

"Petai'r cynllun yng Nghwmrheidol yn cael ei weithredu'n llawn, amcangyfrifir y byddai hyd at 98 tunnell o fetelau niweidiol yn cael eu tynnu bob blwyddyn o'r dŵr sy'n llifo i Afon Rheidol. "Gallai hwn fod yr union beth i'n helpu i gyrraedd rhai o'r targedau heriol sy'n cael eu gosod gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn rhannau o Gymru."

Mae'r prosiect yn ganlyniad i bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Glo a Phrifysgol Newcastle, gyda chydweithrediad gan Statkraft Ltd. Mae hefyd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan yr Undeb Ewropeaidd o dan Amcan 1. Drwy waith monitro pellach, gellir amcangyfrif yn well faint o fetel fydd yn cael ei dynnu o'r dŵr trwy'r flwyddyn, sut y gellir monitro'r system i gael y gorau o berfformiad tymor hir a pha mor fawr y dylai system lawn fod.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn gosod safonau mwy heriol a newydd ar gyfer afonydd a chyrff dŵr eraill Cymru er budd pobl a bywyd gwyllt, gan osod mwy o bwyslais ar statws ecolegol yr amgylchedd dŵr.







# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 345 | Ionawr 2012


Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG

## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335; Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275; Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **CHWEFROR 2** a **CHWEFROR 3** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **CHWEFROR 16**

**IONAWR 20** Nos Wener 'Dylanwadau a choronau', John Price, Machynlleth, Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**IONAWR 26** Nos Iau Noson fingo dan ofal Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Rhydypennau.

**IONAWR 26** Nos Iau Bethlehem Noson Cyflwyno Llun Bethlehem i Fethlehem am 6.00. Achlysur anffurfiol cymdeithasol. Paned a chacen a mwy.

**CHWEFROR 15** Nos Fercher Haf Llewelyn yn trafod ei nofelau. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30. Noddir gan Llenyddiaeth Cymru.

**CHWEFROR 17** Nos Wener 'Noson yng nghwmni Eleri Roberts', Cymdeithas Lenyddol Y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**CHWEFROR 21** Nos Fawrth Noson grempog yn Horeb, Penrhyn-coch am 7.00.

**CHWEFROR 21** Nos Fawrth Ynyd Noson grempog Noson Grempog yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 7.00 — 8.00. Adloniant i ddilyn.

## EISTEDDFODAU YR URDD CEREDIGION 2012

**Cylch Aberystwyth**
07/03/12 Eisteddfod Offerynnol Cynradd ac Uwchradd — Ysgol Gyfun Pen-glais
Uwchradd 9.15yb Cynradd 1.15yp
08/03/12 Rhagbrofion Cynradd - Ysgolion lleol — 9.00yb
(Llefaru yn Ysgol Gyfun Penweddig)
(Canu Unigol yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth)
(Llefaru ail-iaith cynradd yn Ysgol Gynradd Plascrug)
08/03/12 Eisteddfod Uwchradd - Ysgol Gyfun Penweddig 1.30yp
(Llefaru yn Ysgol Gyfun Penweddig)
(Canu Unigol yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth)
(Llefaru ail-iaith cynradd yn Ysgol Gynradd Plascrug)
09/03/12 Eisteddfod Ddawns Cynradd ac Uwchradd — Neuadd Fawr Aberystwyth
Uwchradd 10.15yb Cynradd 11.30yp
09/03/12 Eisteddfod Cynradd— Neuadd Fawr Aberystwyth — 2.00yp

**Rhanbarth**
27/02/12 Celf a Chrefft Ceredigion — Gwersyll yr Urdd Llangrannog - Beirniadu am 4.30yp
17/03/12 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd Ceredigion - Pafiliwn Pontrhydfendigaid - 9.00yb
21/03/12 Eisteddfod Ddawns ac Aelwydydd Rhanbarth - Pafiliwn Pontrhydfendigaid
Dawns Cynradd 12.30yb
Dawns Uwchradd 3.30yp
Aelwydydd 6.00yh
23/03/12 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd Ceredigion - Pafiliwn Pontrhydfendigaid - 9.15yb

Ymddangosodd adolygiad o gyfrol Tegwyn Jones *Sachaid o limrigau* (Cyhoeddiadau Barddas) yn *Nhincer* Rhagfyr. Penderfynodd y *Tincer* y mis yma gynnig cystadleuaeth llunio limrig gan gynnig gwobr o Docyn Llyfr £20 a chytunodd Tegwyn Jones i feirniadu.
Dyma enghraifft o limrig i'ch ysbrydoli!

Hen lanc sydd yn byw yn ein plwy
A ddwedodd, 'Gobeithio yr wy'
Cael lodes fach deidi
I dwymo fy ngwely
Yn nwy fil ac un deg a dwy'.

Anhysbys.

Gyrrwch eich hymgeision i'r golygydd (Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE cyn Chwefror 1af



### Oedfa arbennig

Cynhaliwyd oedfa arbennig i ddathlu y Nadolig ar ddydd Sul Rhagfyr 11eg am 2.00 yng nghanolfan y Morlan, Aberystwyth. Trefnwyd yr oedfa gan Efan Williams, Swyddog Plant ac Ieuenctid Eglwysi Gogledd Ceredigion, a'r gŵr gwadd oedd Dafydd Iwan. Cafwyd neges dymhorol ganddo, a nifer fawr o garolau traddodiadol, yn ogystal â charolau o waith Dafydd Iwan ei hun. Cyfeiliwyd i'r carolau cynnulleidfaol gan Falyri Jenkins, Tal-y-bont. Roedd tyrfa niferus yn bresennol o bob oedran, ac o nifer fawr o gapeli'r cylch, a chafwyd te a bisgedi wedi'r oedfa. Gobeithiwn gynnal oedfaon tebyg ar y cyd yn y dyfodol.

### Apêl Penpal

Hoffai Lynne Hughes, 47 Ger y Llan, ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu i Apêl Penpal. Diolch i Gapel Horeb ac Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch, Capel y Garn, Bow Street, Merched y Wawr a Brownies Penrhyn-coch, Uned Strôc, Côr Meibion Aberystwyth ac i'r holl unigolion sydd wedi cyfrannu pens neu arian. Diolch o galon. Mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel. Maent ar eu ffordd i Sri Lanka y mis yma ac fe fydd rhai yn mynd i India mis nesaf a gobeithio cewch weld y lluniau cyn bo hir. Diolch o galon.

### CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Rhagfyr 2011

Gwobrau Arbennig Y Nadolig 2011.
£60 (Rhif 229) Brenda Jones, Glyn Teg, Lôn Y Groes, Bow Street.
£40 (Rhif 95) Edward Jenkins, Eryl, Llandre


Gwobrau Mis Rhagfyr
£25 (Rhif 83) Jane Jenkins, Y Garej, Penrhyn-coch
£15 (Rhif122) Jean Davies, Cnwc Y Deintur, Maes-y-garn, Bow Street.
£10 (Rhif 4) Haydn Foulkes, Maesyrefail, Penrhyn-coch.

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher y 14eg o Ragfyr 2011.

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

## 20 Mlynedd 'Nôl



Plant Ysgol Penrhyn-coch yn eu gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch. Llun: Hugh Jones. (O Dincer Ionawr 1992)

## Clwb Strôc Aberystwyth a'r Cylch

Ar ddydd Mawrth, 8fed o Ragfyr, o dan nawdd Cymdeithas Strôc Cymru, cynhaliwyd seminar Bwyta'n Iachus, yng Nghanolfan Gymdeithasol y Waunfawr, Aberystwyth.

Daeth naw o'r aelodau yno i wrando ar y ddwy eneth ieuanc a oedd yn lliwio'r cyfarfod, sef Cherry Evans a Carys Davies, y ddwy o swyddfa'r gymdeithas yn Aberteifi.

Cafwyd amser diddorol ac addysgiadol ynglŷn â chynnwys uchel o'r drwg bethau sydd i'w gael yn y prydiau parod, sydd yn llenwi silffoedd a rhewgelloedd pob archfarchnad heddiw.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Shan, Aled, yr wyrion, a phob cysylltiad teuluol arall, ym marwolaeth sydyn Mrs Jane Carona Jones, gweddw y diweddar Barchedig Hugh Llewelyn Jones, ar ddydd Llun, 12fed o Ragfyr.

Daeth 42 ohonom ynghyd yn nhafarn y Railway, Borth, i Ginio Nadolig y clwb. Croesawyd oll yn wresog gan y cadeirydd Mr John Lewis Jones gan yngan ei obaith, y byddai i bawb fwynhâi y wledd ynghyd a chwmni ffrindiau drwy ystod y prynhawn.

Cafwyd geiriau i ddatgan eu siom o orfod rhoi o'r neilltu y gobaith o fod yno gyda ni, oddi wrth ein llywydd, y Dr Gareth Hughes, oherwydd anhwylder ei briod Mrs Gwen Hughes.

Cadwyd munud o dawelwch er parch a choffadwriaeth am Mrs Jane Carona Jones. Yn dilyn daeth y staff cyfeillgar a chymwynasgar â'r bwyd i'r ford, a hwythau eu hunain wedi gwisgo i fynd gyda naws y Nadolig. Yn yr egwyl fer cyn dechrau ar y coffi a'r mince peis, cafwyd y raffl Nadolig, gyda digon o wobrau diddorol ar gyfer yr enillwyr. Yna cafwyd raffl y nwyddau mwy sylweddol eu naws.

Cawsom ein diddanu gan Mrs Mandy Martin yn canu caneuon poblogaidd o'r chwedegau ac ymlaen gyda rhyw gymaint o garolau hefyd, fel bod naws y Nadolig yn parhau hyd y diwedd, i gyfeiliant ei hun ar y gitâr.

Daeth y prynhawn i ben gyda'r cadeirydd yn talu diolch i berchnogion a staff y Railway am bryd o fwyd ofnadwy o dda gyda gwasanaeth rhagorol i fynd gyda'r cyfan.

Ar ôl cryn amser yn symud rhwng ysbytai a chartrefi gofal yn ddiweddar, dda gennym ddeall bod Mrs Betty Jones-Davies yn hapus gartrefol yng Nghysgod y Coed, Llanilar, bellach a'r Parchg Richard Evans, yntau yn Abermad. Anfonwn ein cyfarchion cynhesaf i Mr Fred Davies ar gael ei enwi fel un o arwyr di-sôn yn ein cymdeithasau, ef am ei waith gwirfoddol yn ward Leri, Ysbyty Bron-glais am dros ddeng mlynedd ar hugain. Yng nghwmni ei wraig Jean a Sister Jacqueline Quinn, Sister yng ngofal ward Leri, derbyniodd Fred dystysgrif hardd i gofnodi'r achlysur. Ond er hapusrwydd y dydd, yr oedd cryn dipyn o dristwch hefyd yn bodoli, oherwydd bod y newydd yn gynharach yn yr wythnos i gadarnhau bod ward Leri yn cau ei ddrysau (fel yr ydym ni, y rhai sydd wedi cael strôc yn cofio). Er hynny oll, fel deil yn y cof, gwir werth y ward yma i ni gyda staff mwynaidd, caredig, hoffus a gwybodus yn eu gwaith yno, ac yn gefn mawr i ni, ac yn ein sbarduno ymlaen ar ein taith i wellhad, a hefyd bobl fel Fred. Yr ydym yn fawr ein hedmygedd i chwi oll.

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion

Dyma'r tro cyntaf, mi gredaf, i'r Gymdeithas wahodd Ficer i'n hannerch yn ein cyfarfod misol. A mawr fu'r mwynhad o wneud hynny. Cawsom noson arbennig o ddiddorol wrth wrando ar y Parchg Eileen Davies, o Lanllwni, Hi yw'r Ymgynghorwr ar Fywyd Gwledig o fewn Esgobaeth Tyddewi. O'r dechrau cyntaf rhwydd oedd deall ei bod yn llawn deilyngu'r swydd. Yn wraig ffarm, yn gyn-aelod o'r Ffermwyr Ifanc mae'n hen gyfarwydd â mynychu marchnadoedd anifeiliaid gan fanteisio ar bob cyfle i drin a thrafod materion gwledig efo pobl a ffermwyr cefn gwlad. Rhaid, meddai, fod yn rhan o gefn gwlad i ddeall problemau cefn gwlad. Rhaid hefyd addysgu Ficeriaid sydd o gefndir trefol fod byw a gweithio yn y wlad yn dra gwahanol i'r trefi. Cofier fod llawer yn ddi-Gymraeg ac yn debygol o eisiau arweiniad ar sut i drin a thrafod problemau ac anghenion gwledig. Rhan o'm gwaith, meddai Eileen, yw addysgu myfyrwyr sydd ar fod yn offeiriadon i fywyd ac i arferion cefn gwlad. Dangos iddynt y gwahanol dasgau sydd raid i ffarmwr eu hwynebu o ddydd i ddydd ac nad yw 9 tan 5 yn golygu dim yn y byd amaethyddol.

Erbyn heddiw, anodd yw dod o hyd i fan addas i gyfarfod â phobl. Mae'r rhan helaeth o'n siopau bach wedi cau, gan gynnwys ein swyddfeydd post. Gweithdy'r crydd, y saer a'r gof yn bethau hanesyddol. Mae ein tafarndai yn lleihau o ddydd i ddydd. Un o'r adnoddau gorau i gyfarfod â rhieni a phlant yw ysgol fach y wlad, ond maent yn mynd yn llai o flwyddyn i flwyddyn. Anodd yw dod o hyd i le addas i roi poster i fyny. Erbyn heddiw yr ydym yn bobl unig, gŵyr a gwragedd yn gweithio, llai o gymdeithasu. Mae byw yn yr unigrwydd yn rhoi mwy o amser i hel meddyliau a chreu gofidiau. Ond cofier fod yr offeiriad ar gael saith dydd yr wythnos, bob awr o'r dydd, i estyn cefnogaeth ac i wrando ar broblemau'r sant a'r pechadur.

O flwyddyn i flwyddyn mae bywyd ffermwyr yn myned yn fwy cymhleth. Rheolau newydd, mwy a mwy o waith papur. Rhaid cael dau dag yng nghlust pob dafad a buwch, cadw cyfrif pob anifail, dilyn pob symudiad, cydymffurfio â rheolau chwe diwrnod rhwng prynu creadur i mewn a gwerthu rhai allan.

Cawsom hefyd wybodaeth am y mudiadau sydd wrth law i roddi cymorth i deuluoedd mewn angen oherwydd salwch ac yn methu dod i ben â'r gwaith o ddydd i ddydd. Mae Eileen yn ei swydd bob amser wrth law i bontio anghenion amaethyddiaeth gydag asiantaethau eraill megis Llywodraeth Cynulliad Cymru, Undebau Amaethwyr, Clwb Ffermwyr Ifanc, y Rhwydwaith Argyfwng Fferm (FCN) a'r Sefydliad Iechyd Gwledig. Cofier hefyd fod gan Y Sefydliad Buddiannol Amaethyddol Brenhinol (RABI) rwydwaith o staff rhanbarthol a gwirfoddolwyr ledled Cymru gyfan.

Rhaid atgoffa llawer o'r bobl ddŵad fod yn ofynnol arnynt hwythau i gydymffurfio â rheolau cadw a gofalu ar ôl anifeiliaid fferm. Rhaid dosio, cneifio, trin traed, cadw llygad rhag y clafr a'i debyg, peidio cadw gormod o stoc, ac yn y blaen.

Dylem ninnau fel amaethwyr gofio a gwerthfawrogi fod gan y coler crwn ddylanwad ac yn fudd i berswadio synnwyr cyffredin i ddehongli problemau daearol a moesol sydd yn ein hwynebu o ddydd i ddydd.

Marged Phillips fu'n gyfrifol am gadeirio'r cyfarfod, a Dafydd Jenkins fu'n talu'r diolchiadau. Yn unol â thraddodiad bu cyfle dros baned i drin a thrafod materion y dydd.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 25 Ionawr 2012. yn Neuadd yr Eglwys Llanddeiniol, am 8.00 yh. Ein siaradwr gwadd fydd Lyn Richards, Maesglas, Caio. Bydd yn trafod Hen Gymeriadau Cefn Gwlad. Croeso.

**Edgar Morgan.**

## PAPUR SAIN CEREDIGION YN SYMUD I GARTREF NEWYDD

Mae Papur Sain Ceredigion i'r deillion a'r rhannol ddall yn symud cartref i swyddfeydd newydd Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth ac yn sefydlu eu hunain yno o ddechrau Ionawr 2012 ymlaen.

Dywedodd Mr D Bryn Lloyd, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Papur, bod y gwasanaeth newyddion wythnosol ar dâp wedi ei sefydlu tua diwedd chwedegau'r ganrif ddiwethaf gan y diweddar Mr Ronald Sturt, darlithydd yng Ngholeg y Llyfrgellwyr, gyda chefnogaeth aelodau y Ford Gron a charedigion blaengar eraill lleol, fel y papur sain cyntaf ym Mhrydain ar y pryd. Credir mai dyma'r trydydd lleoliad i'r gwasanaeth yn ei hanes yma yn Aberystwyth. Rhoddwyd cefnogaeth parod iawn ar hyd y cyfnod hwn gan hen gynghorau siroedd Aberteifi a Dyfed, a mawr iawn yw ein dyled unwaith eto i awdurdod a swyddogion Cyngor Sir Ceredigion am eu cymorth caredig yn ystod y cyfnod presennol o ail-leoli. Erbyn hyn mae'r dechnoleg wedi symud ymlaen ac mae'r gwasanaeth wedi ymdopi â'r newid o recordio ar dâp i gyfrwng 'co bach' (usb memory sticks). Gwireddwyd hyn oll dan arweiniad diwyd cyn-gadeirydd y Papur Sain, Dr William Williams, yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf, ac mae'r nifer sydd yn manteisio ar y gwasanaeth wedi croesawu'r cyfrwng newydd yn barod iawn.

Mae nifer o ddeillion a'r rhannol ddall yn byw yng Ngheredigion ac mae cyfle, i'r rhai nad ydynt hyd yma yn derbyn y gwasanaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg, neu yn y ddwy iaith, i'n hysbysu fel y medrant dderbyn y newyddion yn wythnosol ac yn ddidrafferth, dim ond iddynt gysylltu ag Ysgrifennydd y Papur Sain, Mrs Mary Jones, Uned Papur Sain Ceredigion, Swyddfa'r Sir, Rhodfa Padarn, Aberystwyth SY23 3UE.

Dywedodd Bryn Lloyd hefyd y byddai'r pwyllgor rheoli yn falch o glywed gan aelodau o'r cyhoedd yn lleol allai wirfoddoli i ymuno â'r criw sy'n cynhyrchu'r 'tapiau' yn wythnosol, yn naill ai paratoi deunydd i'w ddarllen, darllenwyr, recordwyr a chopïwyr. Eto gellir cysylltu ag Ysgrifennydd y Papur, Mrs Mary Jones yn y cyfeiriad a nodwyd eisoes.

# GOGINAN

### Rhodd

Mewn marchnad ddefaid a gynhelir bob pythefnos ar gaeau Gelli Angharad cyn y Nadolig gwerthwyd oen stor am dros £200, y pres i fynd at achos da. Rhoddwyd yr oen i'r pwrpas gan Ifan Mason Davies, Coed Rhiwfelen — diolch iddo.

### Tarian Moc Jenkins

Cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol ( yn y Druid) am Darian Moc Jenkins ar noswaith Gŵyl San Steffan. Ar ôl cystadlu brwd cyrhaeddodd Steve Jones a Wayne Oliver y rownd derfynol ble y daeth Wayne Oliver i'r brig.

### Croeso

Braf yw cael croesawu Huw a Lara Richards i Bwthyn y Cwm. Maent wedi symud o Benrhyn-coch a gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

### Dathlu

Pen blwydd Hapus i Carhryn Morgan, Blaenmelindwr ar gyrraedd pen blwydd arbennig yn ddiweddar.,

# MADOG

Madog
2.00
Chwefror
5
12 Tecwyn Jones
19 Bugail
26 Oedfa'r ofalaeth - Gŵyl Ddewi yn y Garn am 10.00

### Cerddorol

Llongyfarchiadau i Hanna Meredydd ar basio ei harholiad gradd 5 piano,

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Margaret ac Alwyn Hughes, Gwarcwm Hen, ar farwolaeth chwaer Margaret ym Machynlleth.

### Croeso

Croeso i Mr a Mrs David Evans, sydd wedi symud o Crugnant, Ponterwyd i'r Porthyn Bach yng Nghapel Dewi.

## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 15 Tachwedd 2011, yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Dafydd Sheppard, yn y gadair.

Adroddodd y cadeirydd fod gwasanaeth Sul y Cofio wedi bod yn ddigwyddiad trefnus ac addas. Diolchwyd i Heddlu Dyfed Powys am eu cymorth gyda rheoli'r traffig, i Mr F Ralphs am lanhau a thacluso o gwmpas y Gofeb ymlaen llaw, ac i Gwenan Price am sicrhau gwasanaeth y biwglwr. Nododd y Clerc ei bod wedi gofyn i'r Cyngor Sir ailosod y rheilen bwyso yn yr arosfan bysiau ger y Post, ond ni chlywsai ddim hyd yn hyn. Ni ddaeth gwybodaeth bellach oddi wrth y Cyngor Sir am y garafán ar Ffordd Penyberth; nid oedd ychwaneg i'w adrodd ychwaith am welliannau posib i'r ffordd rhwng Gogerddan a'r groeslon, y borfa ar ganol y ffordd ar Ffordd Salem, y dŵr ar y ffordd ger Ysgol Trefeurig, gwella'r palmant rhwng Tan-y-berth a'r Eglwys, a'r cais i ailosod bolards ger Llyn Melindwr.

Roedd y Cyngor wedi derbyn copi o lythyr a oedd wedi'i anfon gan Gyngor Tref Aberystwyth at Lesley Griffiths, Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru, yn mynegi pryder am y bwriad i israddio gwasanaethau Ysbyty Bron-glais. Trafodwyd y mater a phenderfynodd y Cyngor roi pob cefnogaeth i safbwynt y Cyngor Tref.

Cafwyd adroddiadau gan Trefor Davies am ddau gyfarfod a fynychodd ar ran y Cyngor, sef Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig a chyfarfod Blynyddol Cae Chwarae Pen-bont. Roedd y Cyngor Sir wedi anfon copi o hysbyseb yn gofyn i bobl gysylltu â'r Cyngor Sir os oedd ganddynt ddiddordeb mewn cael eu cynnwys ar gofrestr o gontractwyr a fyddai'n fodlon ymgymryd â chlirio eira etc. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi anfon y ffurflen archwilio i gwmni BDO.

Roedd Dafydd Sheppard a Mel Evans wedi bod yn bresennol ar ran y Cyngor mewn archwiliad safle perthynol i'r cais i godi tŷ ger Plas Gwyn, Penrhyn-coch. Roedd y cais i roi estyniad at 26 Y Ddôl Fach, Penrhyn-coch wedi cael ei ganiatáu.

Dywedodd Mervyn Hughes ei fod y bryderus am gyflwr y ffordd ger IBERS o ganlyniad i'r gwaith adeiladu oedd yn digwydd yno; hefyd roedd yn bryderus am ddiogelwch gan fod lorïau mawr yn tueddu i gael eu dadlwytho o'r ffordd. Penderfynwyd cadw golwg ar hyn a thrafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Rhagfyr. Mae'r cofnodion llawn i'w gweld ar www.trefeurig.org .

# TREFEURIG



### Ysgol Trefeurig

Aeth y cais i'r loteri diwedd mis Medi ac mae ganddyn nhw 6 mis oddi ar hynny i ddod 'nôl at y Grŵp.

Maent wedi gofyn am £350,000 i brynu adeiladau'r ysgol ac ailwampio ac adnewyddu'r adeilad i'w ddefnyddio fel Canolfan Gymunedol a Dysgu Gwledig. Y nod yw cynhyrchu incwm ychwanegol er mwyn cadw adeilad yr ysgol at ddefnydd y gymuned dros y cenedlaethau sydd i ddod.

Prif nod y cais oedd sicrhau dyfodol Hen Ysgol Trefeurig fel canolfan gymunedol ar gyfer y naw pentre' bach sy'n ei hamgylchynu. Mae'n hanfodol prynu'r ysgol er mwyn iddi oroesi fel canolfan gymunedol. Byddai cymorth arian Loteri'n rhoi cyfle iddynt gyflawni hyn, i wella'r cyfleusterau'n unol â dymuniadau'r gymuned ac i ysgogi'r hyder sydd ei angen i ddatblygu syniadau a gweithgareddau.

Byddai tair blynedd o gefnogaeth arian loteri hefyd yn caniatáu i'r gymuned i dreialu ffyrdd newydd o sicrhau'r refeniw sydd ei angen ar yr ysgol i oroesi yn y rôl yma yn y dyfodol. Mae Canolfan Dysgu Gwledig yn darparu un cyfle o'r fath i gynyddu'r refeniw, tra'n cynyddu gwerth ac amrywiaeth y gweithgareddau i'r gymuned yn unol â'r anghenion a fynegwyd.

Mae'r Loteri yn ystyried y cais — derbyniodd y Grŵp alwad ffôn i asesu'r prosiect ac manet wedi cyflenwi gwybodaeth ychwanegol iddyn nhw. Y cam nesaf fydd cyfarfod y swyddogion cyllido eraill - efallai y bydd ganddyn nhw gwestiynau neu anghenion ychwanegol. Wedyn mae'r cais yn mynd at y pwyllgor iddyn nhw wneud y penderfyniad terfynol. Mae'r proses yn drylwyr.

Mae'r cyngor sir yn dal i ymestyn y brydles i'r Grŵp fesul 6 mis nes eu bod yn cael canlyniad. Mae gwir angen arnynt i recriwtio cyfarwyddwyr ychwanegol i'r Ysgol - yn sicr os byddant yn llwyddiannus gyda'r cais ond hefyd os nad ydynt, gan y bydd angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â dyfodol yr Ysgol beth bynnag yw'r canlyniad.

Os oes rhywun o ddarllenwyr y Tincer â diddordeb yn y cyfrifoldeb yma gellwch gael gwybodaeth sut brofiad yw bod yn Gyfarwyddwr neu os ydych chi am gael mwy o wybodaeth am ddyletswyddau Cyfarwyddwyr, cysylltwch â:
Anne Jeremiah — 01970 820242
Ebost: wivane@hotmail.com
Felicity Wills — 01970 828677
Ebost: felicity.wills@btinternet.com
Jane Guest — 01970 820125
Ebost: janeanneguest@gmail.com

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Rhian Mason, Cwmisaf, Pen-bont sydd wedi dyweddio gyda Richard Lloyd (y torrwr gwallt o Aberystwyth) dros y Dolig. Dymuniadau gorau i'r ddau.

JONATHAN JAMES LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

# DÔL Y BONT

### Cofion

Danfonwn ein cofion at Mrs. Pat Norrington Davies, Y Mans, sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn ag Ann Elias a'r teulu, Rogananna, ar farwolaeth tad Ann yn ochrau Llundain ddechrau'r flwyddyn.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Emma a Daniel Rees, Hazel Cot, ar enedigaeth merch fach — Ruby Ann, chwaer i Oliveia.

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

**Cylch Meithrin Rhydypennau**

Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.

**Ti a Fi Llandre**

Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.

## PENRHYN-COCH

# Gwasanaeth Nadolig Horeb










### Suliau Ion-Chwe

**Horeb**
Gweler http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php

*Ionawr*
29 10.30 Oedfa bregeth: Gweinidog
*Chwefror*
5 2.30 Oedfa gymun: Gweinidog
12 10.30 Oedfa deuluol: Gweinidog
19 2.30 Oedfa bregeth: Gweinidog
26 10.30 Oedfa bregeth: Gweinidog

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 25 Ionawr, 8 a 22 Chwefror. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Rhaghysbysiad**
Noson grempog yn Horeb, Penrhyn-coch
Nos Fawrth 21 Chwefror am 7.00

### Plygain y Penrhyn

Cynhaliwyd Plygain flynyddol Penrhyn-coch yn ôl yr arfer yn Eglwys Sant Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn ar y trydydd nos Iau yn Rhagfyr. Yn absenoldeb annorfod y Parchg John Livingstone a Lona Jones roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Ronald Williams, Bow Street. Darllenwyd y llith gyntaf gan y Parchg Judith Morris. Marianne Powell oedd wrth yr organ Agorwyd y blygain gyda chyfraniad arbennig gan gôr niferus plant Ysgol Penrhyn-coch dan arweiniad Gregory Vearey Roberts; yna cymerodd y canlynol eu tro: Parti'r Penrhyn, Angharad Fychan, Wythawd ABC, Linda Jones (Tywyn), Cantorion Aberystwyth parti 1, Pedwarawd Sir Benfro, Daniel Huws, Triawd Rhiannon, Trefor ac Eleri, Cantorion Aberystwyth parti 2 a Cantre'r Gwaelod. Gorffennwyd gyda'r dynion yn canu Carol y Swper. Cyflwynwyd y casgliad o £150 i Gartref Tregerddan. Ar ddiwedd yr oedfa croesawyd pawb i gawl a tharten afal yn Neuadd yr Eglwys. Diolch i bawb fu wrthi'n paratoi ar gyfer y noson. Roedd BBC Radio Cymru yn bresennol a darlledwyd y Blygain fel rhan o Oedfa'r Bore ar Radio Cymru Ionawr 1af a'r 8fed.



### Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gorau am ben blwydd arbennig i Mervyn Hughes, 47 Ger-y-llan, ar Ionawr 12fed oddi wrth Sue.

### Ŵyr newydd

Cafodd Mair a Ritchie Jenkins, Cwmbwa, ŵyr bach newydd yn Llundain ddiwedd mis Tachwedd - Bryn Anthony, mab i Elin a Pat Fuller.

### Priodas ddiamwnt

Llongyfarchiadau i Brian a Gwyneira Marshall, 1 Brogerddan,

a ddathlodd ben blwydd priodas ddiamwnt ym mis Rhagfyr.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Morfudd Griffiths, Nanty, Pantmawr, Llangurig, Dylan a Hywel a'u teuluoedd ar golli gŵr, a thad annnwyl, sef Ronnie Griffiths ar Ragfyr 11eg. Bu'r teulu yn byw ym Maes Seilo am flynyddoedd lawer ac yr oedd Ronnie wrth ei waith bod dydd yng Ngogerddan ac yn fawr ei barch. Roeddynt fel teulu yn cadw cysylltiad agos â Phenrhyn-coch. Bu'r angladd yn Siloa, Cwmystwyth.

### Swydd newydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Aled Rhys Jones, Glan Seilo, yn ei swydd newydd fel un o bedwar Swyddog Datblygu Gymnasteg Cymru yng Nghaerdydd lle bydd yn gyfrifol am un o ranbarthau'r de.

### Diolch

Dymuna Gwyneira a Bryan Marshall, 1 Brogerddan, ddiolch o galon i bawb a ddymunodd yn dda iddynt drwy ddanfon cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion, ar achlysur eu pen blwydd Priodas Ddiamwnt, ym mis Rhagfyr. Diolch yn fawr.

### Cinio Nadolig y Gymuned

Ar y 14eg o Ragfyr fel arfer cafwyd cinio Nadolig y Gymuned yn neuadd yr Eglwys. Pawb yn dathlu ac yn cael amser da. Ar ôl y cinio daeth plant Ysgol Penrhyn-coch i'n difyrru a'i chôr yn canu yn wych. Pawb yn ymuno mewn ambell gorws. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad, ac fel un sydd yn mynychu y cinio drwy'r flwyddyn fe ddiolchodd Mairwen i Egryn am drefnu y cinio pob tro ac i bawb arall sydd yn helpu ymhob ffordd trwy gydol yr amser ac i'r plant am ein diddori y prynhawn hwnnw a chyd ddathlu y Nadolig. Do, cafwyd amser hapus dros ben. Dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!




Llongyfarchiadau i Llŷr James, Pen-banc, a ddaeth yn ail yn y dosbarth Gwartheg Duon Cymreig Adran yr Heffrod, yn Ffair Aeaf 2011 yn Llanelwedd.

## LLANDRE

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Gruffydd Griffiths, Ffosygrafel, sydd yn Ysbyty Bron-glais. Gobeithio y bydd adre cyn bo hir.

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Bu i'r Gangen dorri tir newydd bnawn Llun, 19 Rhagfyr, drwy gyfarfod yn y pnawn yn hytrach na gyda'r nos. Roedd yn bnawn ofnadwy o ddiflas y tu allan ond roedd croeso cynnes yn ein disgwyl ym Methlehem a chawsom sgwrs ddifyr a ddiddorol gan y cyn rheolwr banc o Lanilar, Mr Neville Jones. Mae'n anodd credu fod pethau wedi newid cymaint yn y byd ariannol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ma! Diolch yn fawr i Mr Neville Jones am ei anerchiad.

Diolch yn fawr iawn hefyd i Lena Davies am ofalu ein bod yn cael paned a mins pei ar ddiwedd y cyfarfod ac am addurno'r bwrdd gyda naws Nadoligaidd.

Enillydd y raffl oedd Regina Jones.

Bnawn Llun, 16 Ionawr, byddwn yn teithio i Fachynlleth i ymweld ag Amgueddfa Owain Glyndwr a byddwn yn cychwyn o Fethlehem am 1.30 o'r gloch.

### Nofiwr o Fri

Llongyfarchiadau i Leire Dafis, Glanceiro, am ennill medal efydd yn y ras gyf-newid yng ngala nofio Pencampwriaeth Gorllewin Cymru yn Hwlffordd mis diwethaf.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Nia Peris a Geraint Williams, Lleucu a Gruffydd, Tyddyn, ar eu profedigaeth o golli Gareth Williams - tad Geraint yng Nghaerdydd.

Hefyd â Linda â Wynne Melville Jones Y Berllan a'r teulu. Roedd Gareth yn frawd yng nghyfraith i Wynne.

Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffon: 01970 828693;
ebost :mairllo@hotmail.co.uk

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL



### Cydymdeimlo

Bu diwedd y flwyddyn yn amser trist iawn i lawer yn yr ardal yma. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dafydd a Sian Morris, Neuadd Parc, ar farwolaeth tad Sian yn Sir Fon ar ôl cystudd hir. Yn yr un modd cofiwn hefyd am deulu Ty'n Wern ar farwolaeth tad Glenys ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Bu Sian a Glenys yn ofalus iawn o'u rhieni yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r golled yn enfawr i'r ddwy.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â John Lewis, Dolgamlyn, ar golli ei gefnder, Ronnie Griffiths, Nanty.

### Urdd y Benywod

O'r diwedd cawsom dywydd ffafriol i gynnal ein parti Nadolig yng Nghanolfan Groeso Statkraft. Cawsom noson hwyliog iawn gyda Sion Corn yn galw heibio gydag anrheg i bob plentyn. Cafwyd hwyl yn canu nifer o garolau ac yn tynnu y raffl,a diolch i Alice Briggs am ddod a'i thad gyda hi i chwarae yr organ ac i gyflawni swydd bwysig arall yn ystod y nos. Diolch i bawb am noson hyfryd iawn.

Nos Lun aeth dau lond car o amgylch yr ardal i ganu carolau. Cafwyd croeso mawr ymhob lle a llwyddwyd i gasglu dros £250.00 a fydd yn cael ei drosglwyddo i elusen Marchogaeth i Blant Anabl.

### Sioe Capel Bangor

Bu nifer o aelodau iau pwyllgor y Sioe yn canu carolau o amgylch y pentref cyn y Nadolig. Llwyddwyd i gasglu swm anrhydeddus o arian a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cynhelir y pwyllgor nesaf yn y Maes Bangor nos Fercher Chwefror 1af am 7.30 y.h.

# Capel Dewi gynt

Ychydig iawn o dai oedd yn y pentref pan awn ar fy meic ddiwedd y pumdegau i bregethu ym Madog a Dewi ac y mae cofio hynny yn dwyn i gof f'ymweliad cyntaf â'r brodyr John a Jim James wedi iddyn nhw ddod o Nant-y-moch i fwthyn bach yn ymyl y capel ar y sgwâr Pan ofynnais sut oedden nhw'n setlo ateb John oedd, 'Sa' i'n lico byw yn y ddinas! Ychydig dai neu beidio mi roedd yn ddinas o gymharu â Nant-y-moch. Er bod y capel a adeiladwyd ym 1843 ( yr un cyntaf ym 1813) wedi cau'i ddrysau a'i ddymchwel diolch fod yno garreg i nodi'r fan fu'n gyrchfan addolwyr dwy ganrif. Roedd yr Achos wedi'i sefydlu ym 1799 yr un pryd â'r Garn a Phen-llwyn.

Cefais y wybodaeth mewn llith ddifyr, 'Hanes Cychwyniad a Chynnydd Methodistiaeth yn Capel Dewi', ac efallai y manylaf ar yr hanes mewn rhifyn arall.. A



John James, John James Thomas a Jim James yn nrws Nant-y-moch. Llun trwy ganiatâd Erwyd Howells

chyfle bryd hynny yn ogystal i sôn am dri John Jones a godwyd i'r weinidogaeth yn y capel — yr enwocaf oedd y Doethur John Cynddylan Jones. Bydd raid imi sôn hefyd am y Parchedig Dafydd Lewis y gŵr o ardal y Mynydd Du, Sir Gâr fu'n weinidog ym Madog a Dewi o 1900 i 1944. Wrth fynd drwy fy mhapurau a thoriadau yn ddiweddar deuthum ar draws darn diddorol o'r *Cymro*, 30 Rhagfyr 1949 gyda'r pennawd — Gweddïo yn y capel am wellhad y Sgweiar.

'Mae'r hanes yma yn mynd yn ôl i tua 1870. I Gapel Dewi, pedair milltir o Aberystwyth, daeth y diweddar Barch. Thomas Davies, Treorci, i bregethu. Gweinidog adnabyddus gyda'r Hen Gorff oedd Thomas Davies, yn enwog am ddau beth, sef ei bregethu didderbyn wyneb a'i lais addfwyn, hynod o soniarus. Ardal eglwysig oedd yr ardal, a Chapel Dewi fel poced fach o Fethodistiaeth yn casglu deiliaid yn gyflym. Gellid gweld tyrfa fawr yn cyrchu i wrando ar Thomas Davies y diwrnod hwnnw, ac yn llenwi'r adeilad.

### Cofio Mewn Ewyllys

Testun sgwrs y gynulleidfa tu allan i'r capel oedd gwaeledd Col. Pryse, Peithyll, o deulu Plas Gogerddan. Deellid ei fod yn agos i'w ddiwedd . Yn y capel galwodd y gweinidog ar y gynulleidfa i uno gydag ef i weddïo am wellhad y boneddwr. Ar y pryd digwyddodd gŵr fynd heibio ar ei geffyl, sef Dr Gilbertson, meddyg Col. Pryse. Ac yntau yn eglwyswr selog synnodd glywed cynulleidfa o Anghydffurfwyr yn gweddïo dros y Sgweiar. Pan aeth i'r Peithyll adroddodd am hyn yr hyn a glywsai wrth y Cyrnol.

Er mai eglwyswr oedd Col. Pryse teithiau filltiroedd i wrando ar bregethwr da o unrhyw enwad. Gwnaeth yr hanes argraff ddofn arno, a phan wellhaodd anfonodd am Thomas Davies i ddiolch iddo. Ni wyddis beth a ddigwyddodd yn yr ymgom rhwng y ddau, ond un canlyniad oedd ychwanegiad yn ewyllys Col. Pryse yn darparu £1,000 (faint fyddai'r swm heddiw?) i'w buddsoddi at anrhegu tlodion y cylch bob blwyddyn.

### Tlodion Y Cylch

Yr oedd y tlodion i dderbyn cyfraniadau yn ôl eu gofynion a'u teilyngdod, yn cynnwys, cig, gwlanen Gymreig, blancedi a glo, y diwethaf yn amheuthun mewn ardal yn llosgi mawn. Y mae bellach dros 78 mlynedd ers pan osodwyd y telerau, a phob blwyddyn hyd y rhyfel diwethaf dosbarthwyd y nwyddau yn ôl dymuniad y rhoddwr. Pan ddaeth y dogni penderfynwyd rhoddi'r rhoddion mewn arian — caiff bob un o 10s i bunt. Gweinyddir y gronfa heddiw gan Parch. Ddr. H. Islwyn Davies, ficer Llanbadarn Fawr (ei ail wraig Glenys yn fodryb i Gwenda), a'r Parchg Iorwerth Edwards (ef a'm bedyddiodd ym Methlehem, Cwmerfin), gweinidog Capel Dewi. A'r anhawster mwyaf ynglŷn â'r elusen yw cael hyd i rai i dderbyn y rhoddion'.

Mae'n hanes sy'n dangos ochr garedig Prysiaid Gogerddan ac yn dweud llawer am werth gweddi. Carwn wybod a ŵyr y to hŷn am y gymwynas - beth ddigwyddodd i'r gronfa ar ôl 1949 — a phwy sy'n cofio Cyrnol y Pethyll? Gresyn na chafodd y Dr. David Jenkins (dylid cofio am ganmlwydd ei eni ar 29 Mai) gyfle i ysgrifennu hanes Gogerddan fel yr arfaethodd.

**W.J.Edwards**


Ymddangosodd cais yn Nhincer 134 (Rhagfyr 1990) am wybodaeth am - yn dilyn derbyn yr hysbyseb hon gan y ddiweddar Mrs Gwen Davies, Dolcletwr, Taliesin.

Yn ôl y Tincer "Hen enw ar Gapel Dewi yw Tafarn(-y-)fag(a)l; newidiwyd yr enw i Gapel Dewi pan godwyd y capel. Mae'n debyg mai'r bwthyn ar bwys yr efail ar y sgwâr oedd y dafarn. Fe all fod yma dafarn yn gynnar iawn gan ei fod ar y ffordd o Lanbadarn i Fanc-y-darren a Phenrhyn-coch, ac yn ôl traddodiad llafar fe'i galwyd felly am fod y dafarn yn 'fagl' i ddynion ar eu ffordd o Eglwys neu ffair Llanbadarn.

Mae sôn yng nghasgliad Gweithredoedd Cymmerau (Eglwysfach) rhif 15, yn y Llyfrgell Genedlaethol am 'Estin Inn, sef Tafarn y Fagl', yn 1774, a cheir yr enw ar fedd yng Nghapel Madog — 'Mary, priod John Jones, Tafarnfagl, 1876'.

.. gadawodd [y Cyrnol] arian a fuddsoddwyd yn Nociau Aberystwyth yn ei ewyllys i drigolion Tafarnfagl.

Diffinnid yr ardal fel o Bont (trên) y Fronfraith i Gelli Angharad, i ben uchaf tir Rhos-goch (yn cynnwys pentref Cefn Llwyd), ac i lawr i Dancoed.



Rhodd Nadolig y diweddar Colonel Pryse, i dlodion ardal Tafarnfagl.

## Y BORTH

### O'r ysbyty

Bu Ifor Edwards, Gwarallt yn Ysbyty Bron-glais ddiwedd y flwyddyn ond braf yw ei weld adref ac o gwmpas erbyn hyn.

### Dychwelyd

Mae John a Glenys James, Brynffynnon, wedi symud o'r bwthyn yn ôl i dŷ fferm Moelcerni. Siwr fod John yn hapus yn cael dychwelyd i'w hen gartref.

### Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch

Treuliwyd noson hynod o ddifyr, a dan gadeiryddiaeth John M. Hughes ar 14 Rhagfyr, pryd y daeth Rheinallt Llwyd atom i son am Hud y Mynydd Bach. Buom wrthi yn trin a thrafod beirdd y Mynydd Bach a rhai o'r cymeriadau sydd wedi tarddu o'r ardal a chawsom weld lluniau o'r ardal ar sgrin yn ogystal a gwrando ar farddoniaeth yn ymwneud a'r ardal. Paratowyd paned a mins pei i orffen y cyfarfod gan Tegwen Pryse ac Elen Evans. Elwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyngor Llyfrau Cymru fydd gyda ni ar 11 Ionawr.



Llongyfarchiadau i Julian Thomas, Ynys-las, cyn bennaeth Uned Rwymo aelod o staff y Llyfrgell Genedlaethol ar gael MBE ddechrau'r flwyddyn.

Yn rhifyn Ionawr 135 (Ionawr 1991) ymddangosodd y llythyr isod gan Tegwyn Lewis a'r diweddar Berry Evans.

Annwyl Olygydd,
Yn dilyn eich erthygl 'Nadolig ddoe' yn y Tincer diwethaf, amgaeawn gopi o ewyllys y diweddar Colonel Pryse a gawsom rai blynyddoedd yn ôl pan oeddem yn aelodau o Gyngor

Cymdeithas Parcel Canol. Cyfarfu'r Cyngor â'r Parch. Hywel Jones, Ficer Llanbadarn a oedd yn un o dri Ymddiriedolwr y Rhodd. Penderfynwyd yr adeg honno, gan ei bod yn anodd diffinio 'tlodion' ardal y byddai'r llog yn cael ei rannu i'r henoed a'r anabl yn yr

ardal. Deallwn fod yr Ymddiriedolwyr presennol yn dal i rannu'r rhodd.

Yn gywir,
Berry Evans, Brynawel,
Cefn Llwyd

Tegwyn Lewis, Rhos-goch,
Capel Dewi

Dyma eiriad y rhan berthnasol o ewyllys y diweddar Colonel Edward Lewis Pryse.

'I further bequeath the sum of One thousand pounds to the deserving poor of the Village of Tafarnfagel including all deserving poor who live in Cottages which are situated between Peithyll and the Railway Bridge on the Fronfaith Road and between Peithyll and Lovesgrove on the Road leading towards the Rheidol and between Peithyll and the top of the Rhosgoch Farm on the Road leading to Darren.

The sum of £1,000 is left in Trust of the following persons namely
1st. My dear Niece Carine Agnes Parker or her representatives.
2nd. The Vicar for the time being of Llanbadarnfawr Church.
3rd. The Minister for the time being of Capel Dewi Chapel.

(Nid yw'r darn yma'n glir) of £1,000 is to be invested in the British Funds or the Debenture Stock of one the largest of the English Railways as the Trustees may think fit and the interest thereof to be distributed on each ensuing Christmas Eve to all of the poor within the limits before mentioned who may appear to the said Trustees to be fitting recipients and I earnestly request the aforesaidf Trustees to impres on each of the recipients that I have left this sum for the express purpose of making Christmas day a time of joy and thanksgiving for all and each of them on account of the blessing extended by the Almighty to all human beings at that time.

Major L. W. Mathews
9, Curson Street
Mayfair
London 7 1

Mae llythyrau eraill gan y ddiweddar Hilda Isaac, Tre'r ddol

Annwyl Olygydd,
Diddorol iawn oedd gennyf ddarllen hanes 'Nadolig ddoe' yn y Tincer . Pan oeddwn yn byw yn Llwyndewi r'wy'n cofio fy rhieni yn derbyn o'r rhodd yma i drigolion yr ardal tra rhed dÐr yr afon. Yr ymddiriedolwyr oedd ficer Llanbadarn Fawr a Gweinidog Capel Dewi, Canon W.J. Jones a'r Parchg David Lewis yr amser hynny. Yr hyn a gawsant oedd gwerth pum swllt o gig o siop H.P. Edwards, gwerth saith swllt a chwe cheiniog o ddillad o siop D. Rowland Jones, Aberystwyth a chant o lo oddi wrth Hughes, Station Yard, Bow Street.
Yna gwnaed i ffwrdd â hynny, ac yn ei le cawsant bunt yr un. Arferent ei alw 'y Rhodd'.

Yn gywir,
Mrs Hilda Isaac
Pen-y-graig
Tre'r-ddôl

a gan Mrs Elizabeth Royle Evans, Eilonwy, Capel Dewi - un o Ymddirideolwyr y Gronfa.

Annwyl Olygydd
Wrth ddarllen yr erthygl 'Nadolig Ddoe' yn y *Tincer* gwelaf eich bod yn holi 'Tybed beth a ddigwyddodd i'r Ymddiriedolaeth? A yw'n dal mewn bodolaeth a phwy sy elwa'n ohoni?'

1) Y mae yr Ymddiriedolaeth yn dal mewn bodolaeth a llog wedi cael ei rannu yn rheolaidd ar hyd y blynyddoedd fel gall rhai o'r trigolion dystio, ac i barhau tra deil dÐr i redeg yn afon Rheidol, ac wrth gwrs bydd hynny am byth.
2) Y rhai sydd i elwa yw - y bobl hynny sydd yn 'dlawd ac mewn angen' .
Y mae hyn yn anodd iawn i'w ddehongli yn yr oes yma, felly y pwyllgor sydd yn trefnu sut i rannu' r rhoddion yn awr.

Dywed y Colonel Edward Lewis Pryse yn ei ewyllys fod rhoddion i'w rhannu ar noswyl y Nadolig. Erbyn hyn mae pawb mor brysur ar y noson hon, felly eleni dosbarthwyd y rhoddion ar ddydd Sadwrn 22ain a dydd Sul 23ain Ragfyr gan yr Hybarch Hywel Jones, Ficer Llanbadarn a minnau.

Hefyd ar noswyl Nadolig euthum i Ysbyty Heol y Gogledd Aberystwyth a thusw mawr o flodau fel rhodd oddi wrth yr Ymddireidolaeth i un o drigolion Tafarnfagl a oedd yn wael.

Er fod llawer o bethau wedi digwydd yn ardal Capel Dewi yn ystod y blynyddoedd olaf ym ai ddryllio ein traddodiad a rhwygo'r gymdeithas, gallaf eich sicrhau y byddwn yn cadw dymuniad Colonel Pryse.

Blwyddyn Newydd Dda i'r ardalwyr i gyd.
Yn gywir
Elisabeth Royle-Evans
Elonwy
Capel Dewi

O siarad gyda Mrs Evans a'r Parchg Hywel Jones cafwyd ar ddeall fod y rhodd yn dal i gael ei rannu yn achlysurol - yn naturiol mae swm yr arian wedi mynd i lawr yn ei werth a phrin os o gwbl yw y llog a geir ar fuddosddiadau heddiw. Parheir i roi rhodd fel y tusw o flodau i rai sydd â chysylltiad a'r hen ardal.

## Llythyr

Annwyl Olygydd,

Ga' i dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun cyffrous, newydd gan gwmni Golwg.

Mae'n rhoi cyfle arbennig i bobl sydd â ffrindiau neu berthnasau'n byw y tu allan i Gymru ... ac i bawb sy'n defnyddio i-ffôn ac i-pad.

Mae'n siŵr bod nifer fawr o'ch darllenwyr yn gyfarwydd â chylchgrawn wythnosol Golwg, sydd wedi bod ar silffoedd ein siopau lleol ers dros 23ain o flynyddoedd. Erbyn hyn, mae'n bosib i bawb sydd ag i-ddyfais ( i-ffôn neu i-pad neu i-pod, er enghraifft) brynu cylchgrawn Golwg a'i ddarllen yn electronig ar eich dyfais symudol bob wythnos.

Dyma'r App cynta' erioed i gael ei lansio gan gylchgrawn Cymraeg — apGolwg! Mae'n ffordd newydd sbon o brynu'r cylchgrawn a chael ambell i beth ychwanegol.

Bydd y cylchgrawn i gyd yno mewn ffordd hawdd ei ddarllen a hawdd symud o le i le ond bydd hefyd gyfle ichi fwynhau clipiau fideo a lincs ychwanegol.

Mantais arall yw y bydd y fersiwn App ar gael y funud y mae'r cylchgrawn yn cael ei gyhoeddi, ble bynnag y byddwch chi yn y byd. Bydd y rhifynnau yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a'r fersiwn print ac yn costio yr un faint — namyn ceiniog!

Mae'n gyfle gwych i bobl sy'n byw dramor ddarllen Golwg yn rheolaidd. Mae'n bosib i chi danysgrifio i apGolwg am flwyddyn, chwe mis neu dri mis — neu wrth gwrs mae'n bosib prynu fesul rhifyn.

Felly, ewch amdani — apiwch, i fod yn rhan o'r datblygiad hanesyddol hwn. Ewch i wefan i-tunes a chwilota am ap-Golwg, neu am fwy o wybodaeth ebostiwch marchnata@golwg.com

Yn gywir,
Sian Sutton
Golygydd Cylchgrawn Golwg

Y TINCER

# BOW STREET

Garn
Ion
29 Bugail Roger Thomas
Chwefror
5 Addoli yn Noddfa Bugail
12 Tecwyn Jones Bugail
19 Bugail
26 Oedfa'r ofalaeth — Gŵyl Ddewi

Noddfa
Chwefror
5 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Cymundeb. Y Garn yn Noddfa.
12 Oedfa am 2.00. Gweinidog.
19 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30
26 Oedfa am 10.00. Gweinidog

Suliau - Y Garn
10 a 5
Gweler www.capelygarn.org

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Susan a Simon Herron., Aberhonddu ar enedigaeth mab — Dylan Rhys Herron ar Ragfyr 29ain; ŵyr i Ken a Linda, Maes-y-garn, a brawd bach i Owain.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mair, Gareth, Lowri a Rhys Lewis, Brynawel, Penrhiw, Bow Street, ar farwolaeth cyfnither i Mair ym Mhenparcau cyn y Nadolig.

### Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Maud Phillips, 8 Tregerddan, ar ddathlu ei phen blwydd yn 90 oed ar y 23ain o Ionawr. Mae Mrs Phillips yn un o drigolion cyfarwydd y pentref sydd yn dal i gefnogi pob digwyddiad sydd yn cael ei gynnal yn y pentref boed hynny yn gysylltiedig â`r capel, neuadd, Afallen Deg neu Gartref Tregerddan. Y mae hi hefyd yn dal yn ffyddlon i`r oedfaon yn Noddfa o Sul i Sul. Pob dymuniad da iddi a gobeithio y caiff hi ddal ati am flynyddoedd eto.

### Dathlu ym Maes Ceiro

Mae`n siwr fod yna gryn ramant yn perthyn i rai o drigolion Maes Ceiro y dyddiau hyn gan fod o leiaf ddau ohonynt yn dathlu eu pen-blwydd ar y 25in o Ionawr, Dydd Santes Dwynwen. Ar y diwrnod arbennig hwnnw bydd Mr Ieuan Thomas yn dathlu ei ben blwydd yn 70, llongyfarchiadau mawr iddo a phob dymuniad da. Mrs Mair Lewis yw`r llall ond yr ydym yn pwysleisio ei bod hi chwe mlynedd yn iau na Ieuan!

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus iawn i Howell Ebenezer a ddathlodd ben blwydd arbennig yn 70 oed ar Ionawr y 10fed! Cyfarchion cynnes oddi wrth Caryl, Penry,Garan ac Ela Glain ac Anwen, Iwan, Gruffudd, Moc a Gwion.




Llun: Arwyn Parry- Jones

### Neuadd Rhydypennau

Cynhelir Bowlio Mat byr yn y Neuadd pob nos Lun o 7 tan 9 a Noson Bingo ar y trydydd nos Fercher o bob mis. Croeso cynnes i unrhyw un sydd am ddod i ymuno â ni.



### Pen blwydd ein Gweinidog

Ar ddiwedd gwasanaeth yr hwyr nos Sul, Rhagfyr 18fed synnwyd y gynulleidfa pan ddaeth gwahoddiad i ni fynd i'r festri am gwpaned. Daeth y rheswm dros hynny yn amlwg yn fuan, roedd hi'n ben blwydd arbennig ar y Gweinidog, y Parchg Wyn Morris. Cafwyd orig ddymunol yn cyd-ddathlu ag ef. Llongyfarchiadau calonnog a phob dymuniad da iddo.

### Pen blwydd yn gant

Mae rhywbeth arbennig am y rhif cant. Mae canrif newydd yn golygu dathlu mawr drwy'r byd. Mae ennill can cap pan yn chwaraewr rygbi yn ddigwyddiad eithriadol ac mae sgorio cant mewn criced yn golygu chwifio bat i bob cwr o'r maes. Ac mae byw am gan mlynedd yn haeddu parti pen blwydd allan o'r cyffredin a dyna'n union a drefnwyd gan staff Cartref Tregerddan i Miss Gwen Lewis ychydig cyn y Nadolig.

Ganwyd Gwen Lewis ar yr 21ain o Ragfyr 1911 ond roedd llawer o ddigwyddiadau nodedig eraill wedi digwydd cyn hynny yn ystod y flwyddyn honno. Ganwyd yr actor a'r Arlywydd Ronald Regan ym mis Chwefror. Ganwyd yr actores Jean Harlow ym mis Mawrth a lansiwyd y Titanic yn Belfast ym mis Mai. Mae Gwen Lewis wedi goroesi'r tri! Cyrhaeddodd Ronald Amundsen Begwn y De ar ddechrau rhyfel, y person cyntaf erioed i wneud hynny. A dyma gyfnod y suffragettes a'u brwydr i gael pleidlais i ferched.

Ym mis Hydref 1911 gwelwyd escalator cyntaf Prydain, yng ngorsaf tanddaearol Earl's Court. Mae Gwen wedi gweld y car cyntaf yn cyrraedd Bow Street, y ffôn cyntaf yn cyrraedd y pentref a thrydan yn cyrraedd am y tro cyntaf. A gweld y trên olaf i aros yng ngorsafoedd Llandre a Bow Street.

Heblaw am gyfnod byr o fyw yn agos i'w chwaer yn Aberystwyth mae Gwen wedi byw yn y Bow Street ar hyd ei hoes. Ei chartref cyntaf oedd yr ardal a elwir yn Nantafallen (ger siop Spar heddiw) cyn symud yn ferch ifanc i Benrhiw. Doedd dim enwau ar dai ym Mhenrhiw yr adeg honno yn ôl Gwen. Doedd dim angen enw. Mae'n debyg mai Hafle oedd y tŷ cyntaf i gael enw. Aeth i ysgol y pentref, y 'Rhydypennau Council School' ac mae ganddi atgofion da o'r prifathro Mr James Davies. Yna, i Ysgol Ardwyn yn Aberystwyth. Ond yr un a roddodd yr addysg orau iddi yn ôl Gwen

oedd Mrs. Olwen Morgan, mam Yr Arglwydd Elystan-Morgan, ei athrawes ysgol Sul. "Mi ddysges i fwy hefo Mrs. Morgan na wnes i yn y ddwy ysgol," meddai.

Mae'n cofio ennill sawl gwobr am ysgrifennu yn Eisteddfod Capel y Garn ac yn cofio mwynhau mynd i'r Eisteddfod am bump o'r gloch ar noson Nadolig a'r capel dan ei sang. "Ond cofiwch, roedd y wobr o swllt a chwech yn cael ei roi i'r Genhadaeth", meddai gyda theimladau cymysg. Y gweinidog cyntaf mae hi'n ei gofio yn Y Garn yw'r Parchedig Christmas Lloyd. Mae hi'n cofio helpu i ddosbarthu Trysorfa'r Plant a Chymru'r Plant. Ac yn cofio casglu Calennig ar ddechrau'r flwyddyn gyda phleser mawr.

Bu rhaid gadael byd addysg ar ôl Ardwyn a mynd i chwilio am waith. A threuliodd ei holl yrfa mewn amryw o siopau. Dechreuodd weithio mewn siop ddillad o'r enw London House ble mae siop optegydd Boots heddiw. Yna, symud i siop esgidiau George Oliver ble mae Shoe Zone heddiw a gweithio yno hyd ei hymddeoliad. Ond ni allai Gwen fod yn segur. Bu'n gweithio rhan amser mewn siop esgidiau arall wedi ymddeol ac yna mewn siop gwerthu losin.

Erbyn hyn mae hi wedi cartrefu yng Nhgartref Tregerddan ac wrth ei bodd yno. Fel y dywedodd ar ddydd ei phen blwydd — "rwy'n teimlo'n well nawr na phan oeddwn i'n wyth deg oed!"

Mae hi'n ddiolchgar iawn am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati dros gyfnod ei phen blwydd. Am drefniadau ardderchog Elaine Evans, rheolwraig Tregerddan, a gwaith y staff i gyd.

## NODDFA

Cafwyd gwasanaethau bendithiol yn Noddfa yn ystod y cyfnod hyd at drothwy`r Nadolig. Cynhaliwyd gwasanaeth traddodiadol yr Ysgol Sul nos Sul y 18ed o Ragfyr. Yr oedd y Capel wedi ei addurno`n chwaethus gan Ms Elizabetrh Wyn eleni eto ac yr oedd Mrs Eryl Evans wrth yr organ. Seiliodd yr Ysgol Sul eu cyflwyniad ar y stori "Mul Bach y Nadolig" yn y gyfrol Straeon Ndolig Hudolus ac fe gymerwyd rhan gan Alys, Rhodri, Owain, Llywelyn, Elen, Cadi, Alexis, Elin a Thomas. Yn ystod yr oedfa cyflwynwyd rhod i Mr Iwan Davies a Mrs Jean Davies yn dilyn eu hymddeoliad fel Trysoryddion yr Eglwys fel arwydd o werthfawrogiad diffuant o`u llafur trwyadl yn y swydd am ddeg mlynedd. Er nad oedd Miss Jane Gwyneira Evans yn medru bod yn bresennol o ganlyniad i sefyllfa fregus ei hiechyd cyflwynwyd rhodd iddi hithau hefyd i nodi cyflawni hanner can mlynedd o wasanaeth fel Ysgrifennyd yr Eglwys. Ar drefyn yr oedfa gwahoddwyd pawb i`r festri i ymunno a`r plant yn eu Parti Nadolig ac i fwynhau cwmni Sion Corn. Yr oedd y Festri wedi ei haddurno`n hardd gyda`r addurniadau y bu`r plant yn eu gwneud yn yr Ysgol Sul dros yr wythnosau diwethaf.
Bu`r oedfa hwyr ar Noswyl Nadoloig yr un mor fendithiol a llwyddianus gyda tua ugain yn bresennol. Mr Arwel George oedd wrth yr organ. Yr oedd yn braf cael cwmni`r Parch. Wyn Morris yn yr oedfa ac ef ddarllenodd hanes geni`r Iesu o`r Efengyl yn ol Luc i ni. Yr oedd y ddwy oedfa yng ngofal ein Gweinidog, y Parch. Richard Lewis.
Blwyddyn Newydd Dda i bawb.





Bu plant ysgol Sul Noddfa yn adrodd hanes y geni trwy stori a chân yn eu gwasanaeth Nadolig ar 18 Rhagfyr. Cafwyd parti hwyliog wedyn, a daeth ymwelydd pwysig iawn heibio yn ei wisg goch a gwyn ar ei ffordd o begwn y gogledd i rannu anrhegion â'r plant i gyd. Dymuna'r rhieni ddiolch yn fawr i bawb fu'n helpu gyda'r paratoadau mewn unrhyw ffordd, yn arbennig i Mair Lewis am ei gwaith caled dros yr wythnosau blaenorol

### Capel y Garn

Bu cryn brysurdeb yng Nghapel y Garn dros y Nadolig.

### Operation Christmas Child

Cafwyd ymateb hael unwaith eto i ymgyrch Operation Christmas Child 2011 sy'n cael ei drefnu gan y Grŵp Help Llaw. Derbyniwyd 58 o focsus a dros £200 o nawdd.

### Gwasanaeth Nadolig y Plant

Fore Sul, Rhagyr 11eg, cawsom gyflwyniad caboledig o stori'r Geni gan blant Ysgol Sul y Garn. Cymerwyd rhan gan Elain, Fabien, Gerwyn, Glesni, Gruffudd, Harri, Iago, Lois, Lleucu, Llio, Rhys, Shaun, Teleri, a William. Roedd pob un ohonyn nhw'n gwybod eu gwaith yn dda ac yn perfformio gydag arddeliad. Ar ól y plant bach daeth rhai o'r bobl ifainc, sef Rhun, Ffion a Gwern, i gyfleu profiadau rhai o'r bobl a fu'n dyst i'r geni ym Methlehem. I gloi'r gwasanaeth bu'r gweinidog, y Parchg Wyn Morris, yn siarad á'r plant. Llinos Dafis oedd wrth yr organ.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd parti i'r plant yn y festri a galwodd Sión Corn heibio.







# parhad ... BOW STREET

### Gwasanaeth Bore'r Nadolig

Cafwyd gwasanaeth teuluol am 9 o'r gloch fore dydd Nadolig dan arweiniad y gweinidog. Roedd cynulleidfa dda wedi dod ynghyd a braf oedd gweld y plant wedi dod â'u hanrhegion i'w dangos i ni. Gweinyddwyd y cymun yn ystod yr oedfa. Alan Wynne Jones oedd wrth yr organ.

### Nos Galan

Nos Sadwrn, 31 Rhagfyr 2011, cynhaliwyd gwylnos, dan arweiniad y Gweinidog, i groesawu'r Flwyddyn Newydd mewn myfyrdod a gweddi.

### Cymdeithas y Chwiorydd

Chwiorydd Maes Ceiro a'r ardal oedd yn gyfrifol am y te brynhawn dydd Mercher, Ionawr y pedwerydd. Croesawyd pawb gan y cadeirydd, Llinos Dafis. Arweiniwyd y defosiwn gan Mary Thomas,Tŷ Clyd, a dynnodd ein sylw at y gwahanol emynau yn ymwneud â dechrau'r flwyddyn sydd yng Nghaneuon Ffydd. Kathleen Lewis oedd yn cyfeilio. Yna cawsom anghofio'r gwynt a'r glaw wrth wrando ar Mrs Eryl Evans, y Ddôl, yn rhoi hanes ac yn dangos lluniau ei thaith i Bhutan, y deyrnas fach frau honno sydd ar y ffin rhwng yr India a China.

### Grŵp Help Llaw

Mae Grŵp Help Llaw wedi bod yn brysur drwy dymor yr Hydref. Anfonwyd llwyth arall o ddillad wedi eu gweu i'r cwfaint yn Pastuva, Lithuania, ar gyfer plant anghenus yr ardal. Bu'r grŵp hefyd yn cefnogi Apél Pen Pal, a gafodd ei sefydlu gan Lynne Hughes, merch Mrs Sue Hughes, Penrhyn-coch, mewn ymateb i'r hyn a a welodd ar ei hymweliad diweddar â Sri Lanka a Gogledd India.

Mae ein diolch yn fawr i'r Grŵp Help Llaw sy'n gweithio'n gyson, dan arweiniad Mrs Bethan Jones, i gyfrannu at wahanol ymgyrchoedd sy'n ceisio lliniaru tlodi a newyn mewn gwahanol rannau o'r byd. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn gofyn am stampiau post er budd Oxfam, ac am gapiau plastig poteli llaeth. Am ragor o wybodaeth gallwch gysylltu â Bethan Jones ar 01970 611502 neu Shân Hayward ar 01970 828268.

### Y Gymdeithas Lenyddol

Nos Wener, 16 Rhagfyr, cafwyd noson ddifyr i ddathlu'r Nadolig yn y Gymdeithas Lenyddol ar ffurf darlleniadau amrywiol ar thema'r Nadolig, wedi eu dethol gan Ann ac Alan Wynne Jones. Trefnwyd y darlleniadau yn ôl llythrennau'r wyddor, gan ddechrau'n ddigon naturiol ag A am Angel a gorffen gydag Y am Ystwyll. Cyflwynwyd y rhannau cyfarwydd o'r Beibl am hanes y geni, nifer o chwedlau'n ymwneud â'r ŵyl yn ogystal â tharddiad ambell draddodiad Nadoligaidd. Un o'r uchafbwyntiau oedd clywed hanes anfarwol Tom Macdonald, y 'Tincer Tlawd', yn ennill y gystadleuaeth adrodd yn Eisteddfod Nadolig y Garn ers talwm. Ymunwyd i ganu ambell garol hefyd a chafwyd cyfraniad cerddorol gan 'Wythawd y Garn', cyn mwynhau paned a mins pei i gloi'r noson.




Jordan Lloyd Jones, 12 oed o Ben-y-garn, disgybl yn Ysgol Gyfun Penweddig, a ddewiswyd yn aelod o Only Kids Aloud gyda'r arweinydd Tim Rhys-Evans.

Mae'r teulu i gyd yn dymuno'n dda iddo yn y perfformiad yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd ar Ebrill 1af.

Mae Jordan yn aelod brwd o Theatr Ieuenctid Aberystwyth – bu'n cymryd rhan yn y sioe Fantastic Mr Fox dros y gwyliau a bydd yn ymarfer nawr i gymryd rhan y bachgen yn y sioe 'The Witches'(Roald Dahl) fydd ymlaen yn Chwefror yng Nghanolfan y Celfyddydau. Da iawn Jordan!

### Merched y Wawr Rhydypennau

Ar nos Lun Rhagfyr y 12fed mi ddathlwyd y Nadolig trwy wledda yng ngwesty'r Llew Du, Tal-y-bont. Roedd pawb wedi dotio ar y gweddnewidiad mae Siôn a Catrin wedi creu. Ar ôl pryd hyfryd cawsom ein diddanu gan Lyn Ebenezer yn sôn am ei gariad tuag at Iwerddon a'i phobl. Cafwyd llond lle o chwerthin wrth iddo adrodd hanesion o'i deithiau, ei droeon trwstan a'r cymeriadau diddorol y cyfarfu â hwy. Fe dynnwyd tair raffl a enillwyd gan Anne, Brenda a Beryl. I gloi'r noson mi ganwyd carol. Diweddglo hyfryd.

### Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street

Cafwyd ein cinio Nadolig eleni ar y 3ydd o Ragfyr yn Ysgol Rhydypennau. Croesawyd pawb gan y Parchg Richard Lewis, cadeirydd y pwyllgor. Gofynnwyd y fendith gan y Parchg Wyn Morris. Yna cafwyd gwledd ragorol fel arfer, diolch yn fawr i Mrs Meinir Fleming a merched y gegin am eu cydweithrediad gyda'r pwyllgor i wneud y cinio gymaint o lwyddiant, hefyd i'r Prifathro, Mar Havard, am ei groeso cynnes. Yn dilyn y wledd cafwyd pawb yn canu carolau gyda Miss Kathleen Lewis wrth y piano, dechrau da i ddathlu'r ŵyl. Eleni cafwyd cwmni Meinir Jones o Fanc Barclays, roedd y banc wedi rhoi cyfraniad ariannol tuag at weithgareddau'r pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad.

Dosbarthwyd anrhegion Nadolig i'r henoed yn eu cartrefi. Llawer o ddiolch i'r pwyllgor am sicrhau fod yr anrhegion wedi cyrraedd erbyn y Nadolig.

Edrychwn ymlaen at ymweliad â'r pantomeim yn Theatr y Werin ar y 7fed o Ionawr.

Dymunwn flwyddyn newydd dda i henoed yr ardal.

### Cangen Rhydypennau o Blaid Cymru

Cynahliwyd Brecwast Diwedd y Flwyddyn yn y Ddôl, Llandre, fore Sadwrn, Rhagfyr 31ain. Roedd Elin Jones AC ymhlith y dyrfa dda ddaeth ynghyd i fwynhau brecwast hael a chwmniaeth ddifyr, ac fe godwyd dros £500 at gangen Rhydypennau o Blaid Cymru. Diolch i Gwynfryn ac Eryl Evans am agor drysau eu cartref i groesawu'r brecwastwyr niferus ac i Eryl a Llinos am baratoi'r bwyd.

### Diolch

Hoffai Miss Gwen Lewis, Cartref Tregerddan ddiolch am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 100 oed ym mis Rhagfyr. Diolch yn fawr i bawb

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Marian Beech-Hughes a'r teulu, Maes-y-Garn, ar golli perthynas yn Llanefydd ar ddechrau'r flwyddyn.

### Y Flwyddyn Newydd

Cynhaliwyd Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn y capel ar Nos Wener, Ionawr y 6ed. Cymerwyd rhan trwy gyfraniadau ar ffurf darlleniadau, myfyrdodau a gweddiau gan Alan Wynne Jones, Llinos Dafis, Elystan Morgan a Dewi Hughes, gyda'r Gweinidog, y Parchg Wyn Morris, yn cloi'r cyfarfod. Alan Wynne Jones oedd wrth yr organ

ytincer@googlemail.com

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

### Er Gwybodaeth

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs John a Sian Spink gynt o Gefnmelindwr, ac yn nawr yn byw yn Newton Le Willows Glannau Mersi. Maent yn dad-cu a mam-gu ers diwedd y flwyddyn. Ganwyd mab bach — Gwilym Dylan - i un o'r meibion, sef Dafydd a'i wraig Jen.

### Cylch Meithrin

Cynhaliwyd cyngerdd y plantos bach yn neuadd y pentref cyn y nadolig, a chafodd rhieni, ffrindiau, mamau cu a thadau cu fwynhad llwyr yn gwylio a gwrando ar eu eitemau ar stori y Geni, dan arweiniad eu hathrawes, Sharon Rees-Griffiths.

### Dymuniadau Gorau

Dyweddïodd Andrew a Kim y Nadolig hwn, a ganwyd hefyd iddynt fab bach. Llongyfarchiadau a dymuniadau da eich tri, ac hefyd i mam-gu, sef Mrs Margaret Greenhouse, Dolypandy.

### Gwasanaeth Nadolig

Ar y 18fed o Ragfyr yng Nghapel Pen-llwyn, cynhaliwyd gwasanaeth yr Ysgol Sul. Gwnaeth y plant, deg ohonynt, eu gwaith yn arbennig o dda, sef Kate, Iestyn, Haf, Nannon, Alaw, Llŷr, Ffion, Ellen, Luned, a Megan. Delyth Davies a chwaraeodd yr organ. Roedd Swyddog Ieuenctid Gogledd Aberteifi yn bresennol, a gyflwynodd ei hun i'r gynulleidfa, a siarad tipyn bach am ei waith. Hefyd yn bresennol oedd y Parchg Elwyn Pryse, a adroddodd stori i'r plant. Diolch i athrawon y festri am eu ffyddlondeb drwy gydol y flwyddyn, Heulwen Lewis, Delyth Davies, Jean Watson, Aeronwy Lewis, ac Anne Davies. Blwyddyn newydd dda i bob un ohonynt.

### Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd Noson Goffi a thynnu'r raffl fawr ar Nos Wener, 2 Rhagfyr 2011 yn Neuadd yr Eglwys. Cafwyd adloniant ardderchog gan Driawd Dyfi. Y gyfeilyddes oedd Fflur Pughe. Cyflwynwyd y parti a diolchwyd gan Mr Dei Powell.

Nos Sul, 18 Rhagfyr 2011 cafwyd noson o Naw Llith a Charolau yng ngolau cannwyll. Darllenwyd y llithiau gan y canlynol: Margaretta Jones, Gwynfor Jones, Garth Hughes, Nancy Evans, Iris Richards, Llinos Jones, Mair Stanleigh, Lowri Jones a Heather Evans. Yr Organydd oedd Mr Maldwyn James. Cafwyd eitemau gan Gôr Plant Ysgol Penrhyn-coch dan arweiniad Gregory Roberts. Yr unawdydd oedd y delynores Manon Jones a'r gyfeilyddes oedd Mrs Neli Jones o Bontrhydfendigaid. Hyfryd oedd cael cynulleidfa gref yn bresennol. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Mrs Heather Evans. Cafwyd paned a mins peis yn Neuadd yr Eglwys ar ôl y gwasanaeth.

Dydd Nadolig am 9.15 cynhaliwyd Gwasanaeth y Cymun Bendigaid yng ngofal Mrs Heather Evans, Arweinydd Addoli'r Fywoliaeth. Darllenwyd y llithiau gan Mr Garth Hughes. Y gyfeilyddes oedd Mrs Helen Hughes.

### Y Maes Bangor

Dymuniadau da i Heather ac Andrew Davies a'r teulu, deiliaid newydd Y Maes fel y gelwir yn nawr. Agorwyd ar y 21ain o Ragfyr, ar ôl adnewyddu yr adeilad. Mae yno ystafell hardd i fwyta, a'r bwyd yn dda. Mae'n debyg iddynt fod yn brysur iawn noswyl y flwyddyn newydd, yn coginio dros 80 o brydiau bwyd. Agorir am bump o'r gloch ar nosweithiau Mercher, Iau, Gwener a Sadwrn, ac estynnant groeso cynnes i bawb. Pob hwyl iddynt i'r fenter yn y dyfodol.

### Ymweld

Bu dwy o aelodau y capel yn ymweld dros gyfnod y Nadolig â Mrs Sally Evans 3 Stâd Pen-llwyn, a oedd yng Nghartref Bodlondeb ar y pryd. Hefyd Mr Jim Lewis, Llysalaw. yn Ysbyty Bron-glais, Mrs Myfanwy Thomas, Troedrhiwlwba, yn Hafan y Waun, Mrs Elizabeth Jenkins - Eithinog gynt, yn nawr yng Nghysgod y Coed, Llanilar, a Mrs Enid Vaughan, Maesawel. Cawsant groeso gan bob un ohonynt, a dymunwn iddynt flwyddyn newydd dda, a gwell iechyd yn 2012.

### Marwolaeth

Yn drist, bu farw yn sydyn ar 20ed o Ragfyr, Kenneth Goodson, a fu yn y gorffennol yn un o blant y pentref. Bu ei ddiweddar rieni yn byw yn Man Teg, Stâd Pen-llwyn, am flynyddoedd. Cynhaliwyd yr angladd ar ddiwrnod gwlyb ofnadwy, ar y 30ain o Ragfyr, yn eglwys Bangor, a chafwyd gwasanaeth parchus iawn dan ofal yr Hybarch Hywel Jones. Cydymdeimlwn â Dennis a Michael, ei frodyr, a Jean ei chwaer, a'r cysylltiadau oll.

### Merched y Wawr Melindwr

Dechreuodd y tymor eleni eto ym mis Medi gyda Liz Collison yn lywydd, Llinos Jones yn ysgrifennydd a Glenys Jones yn Drysorydd. Yn y cyfarfod cyntaf daeth Lloyd Edwards o Benrhyn-coch a nifer o gynnyrch oedd wedi ennill gwobrau iddo yn y sioeau yn ôl yn yr haf. Datguddiodd rhai o'i gyfrinachau i ni a chafwyd noson hwylus iawn yn ei gwmni. Gwnaethpwyd y te gan Eirwen Sedgwick a Gwenda Morgan ac mi enillwyd y raffl gan Heulewen Lewis.

Cafwyd cyfarfod tipyn bach yn wahanol ym mis Hydref gan i ni fynd ar daith i'r Caban ym Mhontarfynach. Croesawyd ni yno gan Sarah Bunton ac mi fu yn arddangos i ni ffordd y mae yn mynd ati i wneud siocled. Mae Sarah a'r teulu yn brysur iawn yn sefydlu y fusnes yma ac mae yn trafaelio y wlad i wahanol ddigwyddiadau i werthu y cynnyrch. Mae yn waith caled iawn a hyfryd yw gweld merch ifanc yn mentro mewn busnes yng nghefn gwlad.

Cawsom swper blasus iawn wedi ei baratoi gan ei rhieni cyn troi am adref.

Dechrau mis Tachwedd cawsom noson yng nghwmni Eleri James, Cwmudw, Tal-y-bont. Y llynedd manteisiodd Eleri fanteisio ar y cyfle i fynd i Seland Newydd o dan faner CFFI Cymru ac mi 'roedd yn amlwg iddi gael amser wrth ei bodd yno. Gwnaethpwyd y te gan Heulwen Lewis a Margaret Dryburgh a thalwyd y diolchiadau gan Angharad Jones.

Mis Rhagfyr cawsom ein cinio Nadolig yng Nghlwb Golff y Borth. Ein gŵr gwadd oedd John Meredith a diddorol iawn oedd gwrando arno yn sôn am ei waith yn gyntaf yn y Brifysgol ac yna fel gohebydd gyda'r BBC. Talwyd y diolchiadau gan Ann Davies, Pant-y-crug.

Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn yr Ysbyty neu yn sâl yn ystod y misoedd diwethaf. 'Rydym yn danfon ein cofion atoch ac yn edrych ymlaen i'ch gweld yn ôl gyda ni yn gloi iawn.

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Y TINCER

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân

01970 820149
07980 687475

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT




AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

COFIWCH GYSYLLTU
ytincer@googlemail.com

## ADOLYGIAD

Lleucu Roberts
**Siarad**
Y Lolfa 160t £5.95




Cyfrol arall yng Nghyfres y Dderwen, cyfres o nofelau i'r arddegau hwyr/oedolion a gomisiynwyd gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru, yw hon. Mae Lleucu Roberts yn un o awduron mwyaf profiadol a llwyddiannus y gyfres, ac eisoes wedi ennill Gwobr Tir na n-Og am ddwy o'r cyfrolau hynny, sef Annwyl Smotyn Bach (2009) a Stwff: Guto S. Tomos (2011) — dwy gyfrol eithaf gwahanol i'w gilydd ond sydd, fel Siarad hefyd, yn ymdrin yn sensitif ac yn ddeallus â sefyllfaoedd a themâu sy'n berthnasol iawn i'r oes sydd ohoni.

Mae dechrau'r gyfrol Siarad yn mynd â ni yn ôl at ddigwyddiad mwyaf ysgytwol degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, sef ymosodiad erchyll 9/11. Ond fe gafodd trychineb arall a ddigwyddodd y diwrnod canlynol effaith yr un mor andwyol ar deulu 'bach twt' o Gaerdydd. A'r hyn a geir yn y gyfrol yw ymgais aelodau'r teulu i ddygymod â'u colled a'r galar a ddaeth yn ei sgil dros gyfnod o ddeng mlynedd.

Sgriptiwr ar gyfer cyfresi teledu poblogaidd yw John, ac felly mae'n creu cymeriadau a deialog ar eu cyfer wrth ei waith bob dydd. Mae Mair, ei wraig, yn un o ddilynwyr mwyaf brwd y cyfresi hyn, yn ogystal â phob cyfres sebon arall sydd i'w gweld ar y teledu. Wrth i'r stori ddatblygu, down yn ymwybodol ei bod yn byw ei bywyd yn fwyfwy drwy gymeriadau'r operâu sebon hynny nes ei bod yn y diwedd yn methu gwahaniaethu rhwng realiti a ffuglen.

Wrth i'r ddau ohonynt gilio i'w bydoedd gwahanol, mae John yn dechrau perthynas â merch arall dros y We, ond tybed pwy oedd Karen mewn gwirionedd? Daw storm enbyd o eira i dorri ar draws ei gynlluniau i fynd i gwrdd â'i ffrind newydd yn Llundain, a diffodd y trydan yn y tŷ a'r cyffiniau. On'd ydi hi'n rhyfedd fod angen storm eira a thoriad mewn cyflenwad pŵer i ysgogi pobl i siarad â'i gilydd wyneb yn wyneb?

Cilio i fyd ei gyfrifiadur wna Siôn, y mab, a diflannu i'w lofft am oriau bwygilydd i ddianc rhag gofal caethiwus ei fam. Mae Rachel, ei gariad, am ymuno â phrotest fawr yn Efrog Newydd — ond caiff bwriad Siôn i deithio yno gyda hi effaith bellgyrhaeddol ar ei fam.

Er bod llawer o dristwch yn y gyfrol, fe gyflwynir y stori mewn ffordd synhwyrus a gafaelgar. Ceir yma nifer o themâu cyfoes - o effaith y cyfryngau a thechnoleg ar ein ffordd o fyw i'r protestio diweddar yn erbyn globaleiddio. Mae'r iaith yn llifo'n rhwydd a'r hiwmor a'r sylwebaeth gymdeithasol yn dreiddgar a chynnil. Yn sicr, mae yma awdur dawnus sy'n gallu saernïo stori'n gelfydd ac sydd wrth ei bodd yn trin geiriau. Mae'r cymariaethau'n drawiadol a cheir sawl sylw bachog wrth fynd heibio, er enghraifft: 'Doedd neb yn clywed y geiriau ond roedd hi'n dal i obeithio bod rhywun yn gwrando.'

Rydw i'n sicr y bydd y gyfrol hon yn apelio at nifer fawr o ddarllenwyr — ac mae'n rhoi llawer o bethau i ni eu hystyried ar ddechrau blwyddyn.

**Marian B. Hughes**

# Gwefan Gymraeg i Asiantaeth Gwyliau yng Nghymru

Mae lansiad gwefan Gymraeg asiantaeth gwyliau ar-lein, gan gwmni ifanc Llion Pughe a Gareth Mahoney, yn ddatblygiad busnes arwyddocaol. Bydd y wefan Gymraeg, 'Y Gorau o Gymru' (www.ygorauogymru.co.uk), yn galluogi cwsmeriaid i chwilio ac archebu gwyliau ym mhob cornel o Gymru trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf.

Hwn yw'r busnes gwyliau ar-lein cyntaf o'i fath yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth a gwefan drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Y Gorau o Gymru yn cynnig llety moethus pedwar a phum seren ar hyd a lled Cymru, a nawr fe fydd yn lledu ei apêl trwy ddarparu gwefan Gymraeg, yn ogystal ag un Saesneg ar gyfer archebion ac ymholiadau. Meddai Llion sy'n rhedeg asiantaeth Y Gorau o Gymru o Gemaes, ger Machynlleth: "Mae'n holl bwysig i ni fel cwmni ein bod yn ymgorffori'r iaith Gymraeg yn ein busnes. Ychydig iawn o ddarpariaeth sydd ar gael ym myd twristiaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg."

Ychwanegodd Gareth, sydd hefyd yn rhedeg y cwmni o'r swyddfa yng Nghaerdydd: "Mae 22% o'n archebion yn dod gan bobl sydd yn byw yng Nghymru ac mae 1 o bob 5 o drigolion Cymru'n siarad Cymraeg. Felly mae 'na fwlch yn y farchnad ac 'rydyn ni'n hyderus y gallwn ei lenwi."

Fel canlyniad i ennill cystadleuaeth entrepreneuriaeth Gorsedd y Dreigiau yn Eisteddfod Genedlaethol 2010 yr oedd y ddau bartner busnes yn medru cyflawni eu nod o sefydlu'r unig wefan Gymraeg gan asiantaeth sy'n gosod bythynnod gwyliau yn genedlaethol yng Nghymru. Maent hefyd wedi ymestyn gwasanaeth y wefan, fel ei bod nawr yn bosib i ddysgwyr archebu gwersi Cymraeg fel rhan o'r profiad gwyliau unigryw. Ac os nad ydy hynny'n ddigon, mae'r bythynnod gwyliau yn dod gyda chynhwysyn ychwanegol, arbennig iawn sy'n gwneud gwyliau yng Nghymru yn unigryw a chyflawn. Fe'i gelwir yn 'Groeso Cynnes Cymraeg', a gallwch chwilio am fythynnod â pherchnogion sy'n siarad Cymraeg trwy glicio ar 'perchnogion yn siarad Cymraeg' o dan 'Mwy o Opsiynau Chwilio'.

I ddathlu'r garreg filltir hon, hoffai Y Gorau o Gymru gynnig côd gostyngiad o 5% i unrhyw un sy'n dymuno aros yn eu bythynnod gwyliau yn 2012. Bydd y cynnig yn ddilys tan y 29ain o Chwefror 2012 a'r côd (i'w ddyfynnu wrth archebu dros y ffôn neu ar-lein) yw 'Gwyliau2012'. Gellir defnyddio hwn ar gyfer unrhyw ddyddiadau yn ystod 2012.

Gwefan Gymraeg i Fythynnod
Gwyliau Gorau Cymru
130+ o fythynnod 4* a 5* ar hyd a lled Cymru
Y Gorau o Gymru.co.uk
Gallwch chwilio ac archebu eich gwyliau ar
www.ygorauogymru.co.uk
neu gysylltu â thîm cyfeillgar Y Gorau o Gymru ar 01650 511 101

# COLOFN MRS JONES

Diolch i bawb ohonoch a fu yn ymweld â mi neu a a anfonodd gardiau ac anrhegion ataf yn ystod fy ngwaeledd diweddar, yr oedd yngysurlon gwybod fod meddwl ohonaf. A diolch arbennig i' r rhai a fu yn gofalu am Buster a'r aderyn ac yn wir, yn parhau i ofalu amdanynt am sbel wedi i mi ddod adref.

Mae gan bawb ohonom bryderon am ysbyty Bron-glais ond fe fyddai yn wiriondeb o'r mwyaf ei chau neu gyfyngu ar y gwasanaethau y mae yn ei gynnig. Mae'n wir mai bychan yw'r boblogaeth o'i chwmpas ond y mae ei lleoliad daearyddol a'i dalgylch yn golygu fod yn rhaid iddi fedru cynnig y triniaethau mwyaf diweddar posibl yn yr afiechydon mwyaf cyffredin, o leiaf, oherwydd y mae'n anymarferol disgwyl inni deithio i Gaerfyrddin neu Abertawe. A chofier, nid dim ond y claf sydd yn gorfod gadael ei gartref, rhaid i'w deulu a'i gyfeillion godi pac i ymweld ag ef. Hawdd iawn fyddai dychmygu ambell glaf oedrannus a âi heb ymwelwyr o gwbl oherwydd trafferthion teithio. A rhaid gofyn cwestiwn arall, paham yr aed ati i adfer a datblygu'r ysbyty a wedyn, ar ôl gwneud hynny, sôn am dorri a chwtogi gwasanaethau?

Cefais gyfle wedyn i wneud un neu ddau o bethau yr oedd yn rhaid i mi eu gwneud a chyfle i ddarllen cofiant Alan Llwyd i Kate Roberts.Yr oedd carwriaeth Kate a Morris yn bwnc trafod - ar dro - rhwng fy rhieni, y ddau yn adnabod Kate a Morris yn dda. Un o atgofion mwyaf byw mam am Kate oedd amdani hi yn rhedeg ar hyd maes Eisteddfod Dinbych ar ei ôl yn gweiddi arno - a Morris yn mynd gyda potel wisgi o dan un fraich a hogyn dan y llall (a defnyddio disgrifiad fy mam). Ond damcaniaeth fy mam am briodas Kate oedd iddi briodi Morris i edrych ar ei ôl fel y magodd ei brawd gynt ag iddi wneud hynny gan wybod y gwir ond gan feddwl na fyddai ots ganddi - ac iddi ddarganfod ar ôl gwneud fod ots ganddi ac nad oedd Morris yn cadw ei ran o o'r fargen, sef bod mor ofalus a chynnil a medrai parthed ei natur.

A dweud y gwir, mi ydw i yn amau union natur perthynas Kate a'i brawd. Mae'n wir iddi fagu llawer arno ond tybed nad oedd yr hiraeth ychydig bach yn ormodol? Yn sicr ddigon, y mae yna odrwydd ym mherthynas Deian a Loli, rhyw ymagweddu sydd yn codi dincod ar ddannedd ac na ellir ei esbonio yn nhermau eu gefeilldod na'u cydfyw a'u cydfagu. Mae'n anodd esbonio yn union paham mod i yn teimlo felly, ond mi wn nad myfi yw'r unig un i'[w feddwl . Un rheswm paham fy mod yn amheus ydi natur dywyll Kate weddill yr amser, dyma ddynes yr oedd crïo yn haws iddi na chwerthin ond roedd ei pherthynas a'i brawd i fod yn eithriad i hyn, yn ffynhonnell hapusrwydd iddi. Fe dybiech. felly, y byddai yn medru portreadu'r llonder hwnnw yn gadarnhaol ac argyhoeddiadol yn y llyfr yh dywedodd hi ei fod yn fywgraffiad, sef Deian a Loli.

Gall Gwynn fy mrawd dystio i natur ddagreuol Kate Roberts.Y tro cyntaf iddo ei chyfarfod yn y cnawd oedd pan oedd tua deuddeg oed ac wedi mynd gyda fy mam i Fryn Meirion, Bangor, i recordio rhywbeth at y BBC. Yr oedd Kate yn eistedd yn y dderbynfa o'r golwg mewn cotiau a sioliau - yr oedd hi yn credu yn gryf mewn gwlan a gwlanen! - ond pan welodd Gwynn, dyma hi, heb unrhyw gyfarchiad na dim, yn dechrau beichio crio ac ochneiidio am Dei!

Ond a'm perswadiwyd i gan ddadl Alan fod Kate yn hoyw ei hun? A bod yn onest, naddo, er gwaethaf y dystiolaeth.Yng nghefn fy meddwl, roedd cred fy mam yn llechu, nad oedd gan Kate natur rywiol o gwbl, ei bod yn neuter, os mynnwch. Cred mam oedd iddi briodi Morris am na ofynnai ddim ganddi ond y rhoddai iddi barchusrwydd bod yn wraig briod ac y cymerai ei 'fagu' ganddi dim ond i ddarganfod na fynnai gael ei fagu gan neb. Beth bynnag cymhellion y ddau, mae'n rhaid cyfaddef i'r briodas rhoi cyfle i Kate greu corff o lenyddiaeth gwirioneddol goeth a dyna, yn y pendraw, yw'r peth pwysicaf, does bosibl.

Gorffennaf trwy ddymuno Blwyddyn newydd dda i chi i gyd.


Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Chwilio am ofal plant?
Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn
01545 574187

E-bost
cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan
http://cis.ceredigion.gov.uk

Neuadd Cyngor Ceredigion
Swyddfeydd Cyngor Sir,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA



CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013



GWASANAETH TEIPIO
Cysylltwch â
Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Penrhyn-coch
Ffôn: 01970 828041
Symudol: 07515494710
Ebost: glenwen.morgans @btopenworld.com



GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
01970 828693
mairllo@hotmail.com



TACSI EDDIE
TACSI AR GYFER POB ACHLYSUR, A CHAR ADDAS O SAFON UCHEL I'R ANABL. BYSUS MINI AR GAEL HEFYD
FFONIWCH:
CONNIE AR 828 642
TINA AR 07790 961 226




eich gwefan leol
www.trefeurig.org
newyddion i
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

# YSGOL PEN-LLWYN

## Cyngerdd Nadolig

Wedi'r ymarfer roedd y plant yn awyddus i arddangos eu talentau yn ein sioe Nadolig sef 'Santa ar Streic' ar y 15fed o Ragfyr. Fe roddodd y plant ddau berfformiad yn llawn bywyd a hiwmor ac roedd eu mwynhad yn amlwg i bawb a oedd yn bresennol. Rhaid canmol y plant lleiaf am ddangos amynedd cyn iddynt allu gwneud eu ffordd tuag at breseb Bethlehem. Er i ni edrych i mewn i'r posibiliad o ddefnyddio asyn go iawn ni ddaeth y cynllun at ei gilydd eleni. Blwyddyn nesaf efallai! Mae'n beryglus tynnu sylw at un rhan o'r perfformiad yn arbennig ond ni fydd unrhyw un a oedd yn bresennol yn anghofio Rebecca, Nuala a Laura yn canu mor swynol. Heb y gwisgoedd hyfryd ni fyddai'r perfformiad wedi bod mor effeithiol felly diolch mawr i Louise Herschell am gytuno i'w benthyg i'r ysgol unwaith eto.

Ar brynhawn Dydd Mercher 21 Rhagfyr fe gafodd y plant seibiant o'u gwersi ac fe gafwyd cyfle i fwynhau parti Nadolig. Eleni fe roddwyd cyfle i'r plant weithio mewn grwpiau i gynllunio sut oedd eu byrddau yn mynd i edrych. Roedd yn bleser gweld y gofal a gymerodd y plant wrth ymdrin â'r dasg. Fe ddewisodd y plant gydbwysedd da rhwng bwyd parti a bwyd iachus. Fe fwynhaodd Mrs Mary Davies o'r Cyngor Sir y dasg anodd o benderfynu ar y grwpiau buddugol ac fe roddodd sylwadau treiddgar i bob grŵp. Wedi'r bwyta fe gafwyd nifer o gêmau hwyliog.

## Ffair Nadolig

Fe weithiodd pwyllgor y Gymdeithas Rhieni Athrawon yn galed i drefnu ffair yr ysgol. Y canlyniad oedd noson o hwyl i bob oedran ac fe godwyd swm sylweddol yn ogystal. Yr oedd pawb yn ddiolchgar fod Santa wedi cadw slot yn rhydd yn ei ddyddiadur i ymweld â'r plant. Roedd haelioni y rhieni i'w weld ar bob stondin ac ambell i fargen i'w gael hefyd. Wedi i bawb cael cacen a phaned o de fe gafwyd y raffl fawr, gyda hampyr Nadolig a osodwyd at ei gilydd yn grefftus gan Mr Elfed Lewis yn brif wobr. I ddilyn fe gafwyd ocsiwn dan arweinyddiaethd hyderus Mr Emlyn Jones am noson yn y Cross Foxes.

## Beiblau i Ysgolion

Ar ddiwedd y tymor fe ddaeth Lynnete Puw a fu'n arwain sesiynau gyda dosbarth 2 yn edrych ar hanesion yr Hen Destament yn gynharach yn y tymor i'r ysgol. Yr oedd yn falch cael cyflwyno Beibl i bob plentyn yn yr ysgol drwy gynllun 'Beiblau i Ysgolion.'


Rhai o'r plant yn arddangos y Beiblau newydd.


Un o'r grwpiau ar fin mwynhau y bwyd yn y parti.


Y plant yn eu gwisgoedd yn ystod yr ymarfer olaf cyn perfformio.


ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

M THOMAS
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
**Ffôn: 01970 820122**

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch (01970) 820924

Gofal Traed Aber
Ceiropodydd / Podiatrydd cofrestredig H.P.C.
Triniaeth ar ewinedd a chyrn
Llawdriniaeth ar gasewinedd
Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig
Gwadnau ac asesiad biomecanyddol
**TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL**
Cysylltwch gyda Shân Jones neu Richard Ellison ar **01970 617269** am apwyntiad

# YSGOL RHYDYPENNAU

### Cinio Nadolig

Ar y 3ydd o Ragfyr cynhaliwyd cinio Nadolig yr henoed yn yr ysgol. Bu Mrs Meinir Fleming a'i staff yn brysur iawn yn paratoi'r wledd i 80 o bobl eiddgar iawn. Cytunodd pawb mai dyma'r cinio gorau eto! Diolch yn fawr i staff y gegin ac i Bwyllgor yr Henoed am drefnu'r achlysur mor effeithiol. Ar yr 21ain o Ragfyr, cynhaliwyd cinio Nadolig i'r plant a'r staff. Yn ystod y gwledda, cyflwynwyd anrhegion o ddiolch i holl staff y gegin am eu gwasanaeth ac, wrth gwrs, am y bwyd blasus maent yn gynhyrchu drwy'r flwyddyn.

### Gwasanaeth Nadolig

Ar yr 15ed o Ragfyr cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yr ysgol. Eleni aethpwyd allan i'r gymdeithas a chynnal y perfformiad yng Nghapel Y Garn. Thema'r noson oedd 'Stori'r Geni' a chafwyd gwledd o ganu, actio a llefaru. Yr oedd hi'n braf gweld Y Garn yn orlawn a'r gynulleidfa i gyd yn datgan eu gwerthfawrogiad ar ddiwedd y perfformiad. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r gofalwr ac aelodau blaenllaw'r Garn am eu cydweithrediad a'u cyngor yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiad. Cafwyd cyngerdd ardderchog hefyd gan ddosbarthiadau'r Meithrin a'r Derbyn ar y 13eg a'r 14eg o Ragfyr yn neuadd yr ysgol. O ganlyniad i'r perfformiadau yma, codwyd dros fil o bunnau tuag at gronfa'r ysgol.

### Partïon

Bu plant yr ysgol yn ffodus iawn yn ddiweddar, gan eu bod wedi cael y cyfle i fwynhau dau barti Nadolig dau ddiwrnod o'r bron! Ar yr 20fed o Ragfyr, cynhaliwyd parti'r ysgol o flwyddyn 1 i flwyddyn 6. Yn ystod y miri, cafodd y plant gyfle i fwynhau gwledd o fwyd blasus.

Ar yr 21ain o Ragfyr, trefnwyd parti Nadolig gan bwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Roedd y parti yn agored i bawb yn yr ysgol a chynhaliwyd y dathliadau yn neuadd yr ysgol am hanner awr wedi chwech tan wyth yr hwyr. Hoffai'r ysgol ddiolch i aelodau'r pwyllgor am drefnu'r noson, i Mrs Meinir Fleming am y lluniaeth blasus, i Mr Rhodri Morgan am ei ddisgo hynod o dda, i noddwr y noson sef Clwb Pêl-Droed Bow Street ac yn olaf; diolch i Siôn Corn am dreulio ychydig o'i amser prin i ddosbarthu anrhegion cynnar i'r plant ffodus ar y noson. Elw'r noson £219.20 .

### Band

Ar yr 16eg o Ragfyr fe aeth Mr Alan Philips, athro peripatetig pres y sir, â band pres yr ysgol i ddiddanu henoed Cartref Tregerddan. Mae'r ymweliad hwn yn ddigwyddiad traddodiadol bellach ac mae'r henoed yn disgwyl yn eiddgar i glywed dawn yr offerynnwyr. Diolch i Mr Phillips am ei arweiniad a'i barodrwydd i ddangos y talentau lleol yn y gymuned.

### Ymweliad Diogelwch

Ar ddiwedd y tymor, cafwyd ymweliad gan PC Hefin Jones. Pwrpas yr ymweliad oedd atgyfnerthu'r neges o ddiogelwch i'r plant dros gyfnod Y Nadolig. Hoffai'r ysgol ddiolch i Hefin am ei wasanaeth

### Clwb Cant y Cant

Yn ystod tymor yr hydref, roedd 39 o blant â record cant y cant o ran presenoldeb yn yr ysgol. Llongyfarchiadau iddynt!



Blwyddyn 1 a 2 yn perfformio Stori'r Geni yng Ngapel y Garn.



Clwb Cant y Cant.

Dyma ganlyniad Rhagfyr:-
Siôn Ewart, Bow Street - £50
Susan Davies, Llandre - £30
Eileen Williams, Llangwyryfon- £20

Os am fod yn aelod o Glwb Cant yr ysgol cysylltwch â Delyth Morgan, Ger-y-Nant, Dolau.

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk



Ymweliad gan PC Hefin Jones



Parti Nadolig yr ysgol.



Cyngerdd Nadolig plant y Meithrin a'r Derbyn.

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Cinio'r Gymuned

Cynhaliwyd Cinio Nadolig y Gymuned ym mis Rhagfyr. Braf oedd cael cyflwyno côr yr ysgol i'w diddanu. Aeth holl aelodau'r côr i neuadd yr Eglwys a chafwyd hanner awr o adloniant. Diolch iddynt am y cyfle i fynd a'r côr allan i'r gymuned ac am eu rhodd hael ar ddiwedd y prynhawn.

## Pacio Bagiau

I godi arian i goffrau yr ysgol, gwelwyd disgyblion a rhieni'r ysgol yn archfarchnad Morrisons yn pacio bagiau. Treuliwyd pedair awr yno a chasglwyd swm anhygoel. Gwelwyd Côr yr ysgol yn canu ym mhrif fynedfa'r siop. Diolch i'r disgyblion a'r rhieni a ddaeth i bagio'r bagiau ac i aelodau'r côr am ganu mor arbennig.

## Cinio Nadolig

Cafwyd cinio Nadolig yr ysgol yn ystod wythnosau olaf y tymor. Paratowyd y cinio gan Mrs Watkins a Miss Evans. Cafwyd gwledd o fwyd a diolch i'r ddwy ohonynt am eu holl waith caled yn paratoi.

## Sinema

Yn dilyn yr holl ymdrech ar gyfer y Sioe, cafodd y disgyblion (a'r staff) gyfle i ymlacio gydag ymweliad i'r Sinema i wylio ffilm arbennig.

## Llety'r Barnwr

Yn ystod y tymor, bu'r disgyblion yn astudio cyfnod Oes Fictoria. Ar fore oer ym mis Rhagfyr a hithau'n bwrw eira, teithiodd cyfnod Allweddol 2 i fyny i Lanandras i ymweld â Llety'r Barnwr. Yn ystod yr ymweliad, cafwyd cyfleoedd i ymweld â rhannau o'r adeilad i astudio yr eitemau a roddwyd mewn sannau ar noswyl Nadolig, y tegannau a roddwyd i blant tlawd a chyfoethog. Trafodwyd cardiau Nadolig o'r cyfnod cyn ymweld a'r gegin i weld pa fwyd a baratowyd ar gyfer y wledd Nadolig. Rhoddwyd cyfle iddynt hefyd chwarae gêmau traddodiadol o'r cyfnod ac i glyewd hanesion am eu harferion. Er yr oerfel, cafwyd diwrnod arbennig gyda'r disgyblion yn cael cyfle i weld yr hyn a ddysgwyd o fewn y dosbarthiadau yn dod yn fyw o flaen eu llygaid.

## Parti Nadolig

Cynhaliwyd ein parti Nadolig yn ystod wythnos olaf y tymor. Cafwyd gwledd o fwyd a danteithion amrywiol. Trefnwyd y parti gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y bwyd neu fu wrthi'n gweini. Cafwyd llawer o hwyl yn mwynhau. Cafwyd ymweliad arbennig gan Siôn Corn a alwodd heibio i'r ysgol er yr holl brysurdeb. Cafwyd anrhegion ganddo i bob un o'r disgyblion a chanwyd cân iddo wrth iddo fynd ymlaen ar ei daith hir. Diolch i'r garej am eu rhoddion.

## Plygain

Braf oedd gweld aelodau o gôr yr ysgol yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth Plygain a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn. Daeth criw da i gefnogi a chlywyd y côr yn canu ar ddarlledaid o ddetholiad o'r gwasanaeth ar Oedfa'r bore ar Radio Cymru yn ystod gwyliau'r Nadolig.

## Noson Agored

Ar y 15fed o Ragfyr, cynhaliwyd noson agored yn yr ysgol. Pwrpas y noson oedd rhoi'r cyfle i rieni a thrigolion yr ardal i weld yr hyn mae'r ysgol yn ei gyflawni. Gwelwyd gweithgareddau amrywiol yn digwydd o fewn yr ysgol e.e. gweithgareddau cyfnod sylfaen yn y dosbarth derbyn a dosbarth 2, gweithgareddau Rhifedd a Gwyddoniaeth yn nosbarth 3 a'r Cynghorau Eco, plant gwyrdd a Comenius yn nosbarth 4. Gwelwyd clybiau'r Urdd, Campau'r Ddraig a Celf a Chrefft yn y neuadd ynghyd â Clwb Cwl, Clwb Brecwast a Mrs Watkins yn arddangos ciniawiau ysgol. Bu côr yr ysgol hefyd yn diddanu. Paratowyd paned gan y PTA. Daeth criw dda i weld yr ysgol a diolch i bawb am eu cymorth.

## Croeso

Ar ddechrau tymor, rydym yn croesawu pump o ddisgyblion newydd i'r ysgol sef Annie-May, Tomos, Steffan, Jamie a Katelyn. Croeso iddynt a'u rhieni a gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

## Christingl

Yn ôl y traddodiad, cynhaliwyd gwasanaeth Cristingl ar brynhawn olaf y tymor yn yr Eglwys. Bu'r disgyblion wrthi yn gwneud un cristingl y teulu a chafwyd cyfle i gynnau y rhain yn ystod y gwasanaeth. Gwelwyd y staff yn cymryd rhannau blaenllaw yn y seremoni. Diolch i'r Parchedig Ronald Williams am ei anerchiad. Diolch hefyd i Swyddogion yr Eglwys am y croeso parod a gafwyd ganddynt.



Hon yw ei stori E - sioe Nadolig yr Adran Iau





Nadolig yn Rwla - Sioe Nadolig y CYfnod Sylfaen



Rhai o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dysgu am deganau Oes Fictoria yn Llety'r Barnwr yn Llanandras

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

Mwynhaodd plant y Cyfnod Sylfaen daith i goedwig Nant yr Arian yn ddiweddar er mwyn ymweld â Siôn Corn a'i helpwyr. Er y gwyntoedd cryfion, llwyddodd Siôn Corn gyrraedd yn saff. Gadawodd pob plentyn, ac aelod o staff gyda gwên fawr!

Bu plant Ysgol Craig yr Wylfa yn canu carolau yng nghyntedd Morrisons ar fore Rhagfyr 13eg. Roedd y canu'n arbennig o dda a chodwyd dros £300 i'r ysgol. Diolch i bawb wnaeth roi mor hael.

Cynhaliwyd sioe Nadolig yr ysgol nos Iau, Rhagfyr 15fed yn Neuadd Gymunedol y Borth. Roedd yna gynulleidfa fawr yn cefnogi plant yr ysgol a'r ysgol feithrin. Agorwyd y gyngerdd trwy air o groeso gan Mr Leggett ac yna perfformiwyd y garol 'Lullaby of a Christ Child' a gyfansoddwyd gan Mr Michael James FRCO, Organydd Eglwys St. Matthew, gyda Harvey Perkins blwyddyn 2 yn canu'r unawd. Cafwyd perfformiadau gan offerynwyr yr ysgol, gyda pherfformiad plant yr ysgol feithrin i ddilyn. Perfformiodd plant yr ysgol sioe 'How the Star was Chosen' a medli o ganeuon a charolau i orffen. Roedd y plant yn rhagorol ac rydym yn falch iawn o gyfraniad pob un ohonynt. Wedi i'r sioe ddod i ben, bu amser i ymlacio wedyn gyda phaned a mins pei a chrwydro o amgylch y Ffair Nadolig a drefnwyd gan Gymdeithas Rhieni, Ffrindiau ac Athrawon yr ysgol. Diolch o galon iddynt am eu holl waith. Tynnwyd y raffl a chafwyd y diolchiadau gan Mr Jones. Codwyd dros £600 ar y noswaith.

Cafwyd taith i Sinema Commodore Aberystwyth ar fore Gwener, Rhagfyr 16eg i weld y ffilm 'Rio'. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r Gymdeithas Rhieni, Ffrindiau ac Athrawon am eu cyfraniad hael a dalodd am y bws. Cafodd pawb fore hyfryd.



Aeth yr ysgol gyfan i wylio perfformiad Côr a Cherddorfa Ceredigion brynhawn Rhagfyr 19eg. Roedd safon y perfformiadau yn ardderchog. Llongyfarchiadau i Mr Geraint Evans, Rheolwr y Gwasanaeth Gerdd, ac i weddill y staff peripatetig am eu gwaith caled i baratoi perfformiad graenus a chyngerdd pleserus.

Cymerodd Siôn Corn amser allan o'i amserlen brysur er mwyn ymweld â'r ysgol ar ddydd Mercher, Rhagfyr 21ain. Roedd plant yr ysgol a'r Cylch Meithrin wrth eu boddau yn sgwrsio ag e. Diolch yn fawr Siôn Corn! Wedi yr ymweliad breintiedig, mwynhaodd y plant ginio Nadolig blasus wedi ei baratoi gan ein cogydd Mrs Wendy Jones. Diolch o galon iddi am goginio gwledd anhygoel!








FFENESTRI
IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
*Sefydledig dros 30 mlynedd*
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

# TASG Y TINCER

Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch chi. Gobeithio i chi gael gwyliau Nadolig wrth eich bodd a bod Sion Corn wedi bod yn garedig iawn eto eleni. Mae bellach yn 2012, a'r addurniadau 'nôl yn yr atig a'r cwtsh dan staer am flwyddyn arall.

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r plant yn canu carolau y mis diwethaf. Yn rhyfedd ddigon, nid plant o ardal y *Tincer* fu'n lliwio, ond wyrion a wyresau yr ardal — diolch i'r neiniau a'r teidiau am anfon eu gwaith ata'i! Dyma'r enwau: Harri van de Vyver (sydd â Nain a Taid yn Llys Hafod, Bow Street); Ela Glain a Garan Rhys Thomas o Landaf, a Gruffudd, Morgan a Gwion Ellis o Waelod y Garth, ond sydd â thaid balch iawn ym Mryncastell, Bow Street. Da iawn chi i gyd. Ti, **Morgan** sy'n ennill y tro hwn. Hoffais wallt gwyrdd un o'r cantorion, ac esgidiau melyn bob un ohonyn nhw.



Morgan Ellis

Fyddwch chi'n dathlu Dydd Santes Dwynwen ar Ionawr 25? Ydech chi'n gyfarwydd â hanes trist y Santes? Roedd hi'n byw amser maith, maith yn ôl, mewn plasdy crand. Cynhaliwyd gwledd fawr yn y plasdy un noson, a daeth tywysog ifanc, golygus o'r enw Maelon i'r wledd. Pan gwrddodd Maelon a Dwynwen, syrthiodd y ddau ohonyn mewn cariad a'i gilydd yn y fan a'r lle, ac roedd Maelon am iddyn nhw briodi yn syth! Ni wyddai Dwynwen beth i'w wneud; roedd am briodi Maelon, ond nid yn syth, a gwylltiodd Maelon am nad oedd ganddo amynedd i aros amdani. Druan â Dwynwen. Aeth hi i guddio yn y goedwig, ac yno daeth angel ati a rhoi tri dymuniad iddi. Wyddoch beth oedd un ohonyn nhw? Dymunodd y byddai'n dod yn nawdd-santes cariadon, ac na fyddai byth yn priodi. Aeth Dwynwen i fyw ar Ynys Llanddwyn, ac adeiladodd eglwys yno. Roedd llawer o gariadon yn ymweld â'r eglwys hon er mwyn gofyn am gyngor gan Dwynwen.

**Beth am liwio llun y dywysoges hardd y mis hwn?**

Efallai mai tywysoges fel hon oedd Dwynwen. Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol erbyn Chwefror 1af i Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE. Pob hwyl ar y lliwio!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed Rhif ffôn

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *

Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454

linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 345 | IONAWR 2012